



Canllaw yn unig yw'r wybodaeth a ddarperir yn y Diweddariad Cyllid hwn. Cysylltwch â'r arianwyr yn uniongyrchol i gadarnhau cymhwysedd ar gyfer yr arian.

Drwy gydol y diweddariad hwn bydd dolenni i wefannau allanol. Er ein bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y cysylltiadau hyn yn gywir, yn gyfredol ac yn berthnasol, ni all Cyfoeth Naturiol Cymru gymryd cyfrifoldeb am dudalennau a gynhelir gan ddarparwyr allanol.

*Er mwyn ein helpu i sicrhau bod y diweddariad hwn mor ddefnyddiol â phosibl, a fyddech cystal â chwblhau'r **arolwg byr** hwn os gwelwch yn dda*

Cynnwys:

- **Newyddion Cyllid Diweddaraf a Newyddion am y Sector**
- **Beth sy'n Newydd?**
- **Cyllido Torfol a Chodi Arian Ar-lein**
- **Elusennau, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau**
- **Cyllid Llywodraeth Ganolog ac Ewropeaidd**
- **Arian Loteri**
- **Adnoddau a Chymorth Defnyddiol**

Y Newyddion Cyllid Diweddaraf a Newyddion am y Sector

Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod – Sefyllfa Ystlumod y DU

Mae'r tueddiadau diweddaraf o'r adroddiad yn awgrymu fod poblogaethau pob un o'r rhywogaethau ystlumod sy'n cael eu monitro'n sefydlog neu'n gwella, sy'n awgrymu fod deddfwriaeth bresennol a gweithredu cadwraethol i warchod a diogelu ystlumod yn cael effaith gadarnhaol ar boblogaethau ystlumod, ac y dylid dal ati.

Environet Cymru – Canllaw Trydydd Sector i Newid Hinsawdd

Gall newid hinsawdd ymddangos fel mater rhy enfawr neu bell, â chanddo ychydig o effaith ar eich gwaith beunyddiol. Ond, am ein bod ni oll yn rhannu'r un blaned a'r un adnoddau naturiol, mae gan bawb a phob sefydliad y potensial i gael eu heffeithio'n negyddol gan hinsawdd sy'n newid, a gall deal hyn ein helpu i baratoi a chynllunio'n well. Mae'r **canllaw** hwn wedi cael ei gynllunio i roi dealltwriaeth sylfaenol i chi o faterion yn ymwneud â'r hinsawdd a ble i ddod o hyd i gefnogaeth bellach i'ch helpu i reoli eich risgiau hinsawdd, a gwneud gwell penderfyniadau ar gyfer dyfodol sy'n newid.

Gwirfoddoli Cymru – Bas Data Gwirfoddoli Newydd

Cofrestrwch ar fas data newydd Gwirfoddoli Cymru i chwilio am neu i hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli yng Nghymru.

WCVA – Hyb Data'r Trydydd Sector

Bwriad yr Hyb Data yw helpu i ddangos effaith gwaith y drydedd sector yng Nghymru drwy gyfrwng gwybodaeth ystadegol a ddiweddarir yn rheolaidd, am weithgareddau'r drydedd sector, gab gynnwys niferoedd sefydliadau, incwm y sector, oriau gwirfoddoli, meysydd gwaith, ble y lleolir grwpiau a rhagor.

Llywodraeth Cymru – Fframwaith Parth Awyr Lân i Gymru

Dyddiad cau: 19 Mehefinn 2018

Mae Llywodraeth Cymru eisiau clywed eich barn am Fframwaith Parth Awyr Lân i Gymru er mwyn gwella ansawdd awyr. Mae Fframwaith Parth Awyr Lân i Gymru'n darparu canllawiau i awdurdodau lleol sy'n ystyried opsiynau ar sut i ymdrin â materion ansawdd awyr lleol.

Llywodraeth Cymru – Fframwaith Datblytgu Cenedlaethol: Materion, opsiynau a'r opsiwn a ffafir

Dyddiad Cau: 23 Gorffennaf 2018

Mae Llywodraeth Cymru eisiau clywed eich barn am gam nesaf datblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF)

Coed Cadw – Rheoli Tir yn Gynaliadwy: Sut y gall coedwigoedd a choed ddarparu nwyddau cyhoeddus yng Nghymru

Yn y papur polisi hwn mae Coed Cadw'n amlinellu eu safle ar y cyfleoedd a'r peryglon i ddyfodol rheoli tir yn gynaliadwy gan ddefnyddio coed a fforestydd, a sut y gall yr asedau naturiol hyn gyflawni budd cyhoeddus.

WWF – Achub y Ddaear: Dyfodol Cynaliadwy i Briddoedd a Dŵr

Dengys adroddiad newydd gan WWF, yr Ymddiriedolaeth Afonydd a'r Ymddiriedolaethau Pysgota y byddai gwario rhyw £10 miliwn y flwyddyn ar fesurau diogelu pridd yn sicrhau dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth ac yn gwyrddo'i dirywiad a welwyd yn ein hafonydd gwerthfawr. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos y byddai defnyddio cymorthdaliadau

fffermydd presennol i annog ffermwyr i droi ardaloedd bychain o dir ffermio'n laswelltir, coedwig a / neu wlyptiroedd yn creu manteision enfawr i fyd natur ac i gymdeithas.

Beth sy'n Newydd?

Cronfa Fuddion Cymunedol CO2Sense

Bydd Cronfa Fuddion Cymunedol CO2Sense yn cefnogi cymunedau yn Sir Gaerfyrddin a'r ardal gyfagos i gynnal gweithgareddau fel addysg, gwarchod yr amgylchedd, a diwylliant a threftadaeth. Gall sefydliadau wneud cais am grantiau hyd at £2,250. Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau cryfion gan grwpiau a leolir o fewn cylch o 20 milltir o bentref Cwmann, ac o fewn i Sir Gâr. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: [**grants@cfiw.org.uk**](mailto:grants@cfiw.org.uk)

Sefydliad Elusennol DS Smith

Mae Sefydliad Elusennol DS Smith yn cefnogi elusennau sy'n ymwneud â gwarchod yr amgylchedd a darparu hyfforddiant neu gyfleoedd addysgol. Bwriad yr elusen yw gwneud cyfuniad o roddion bychain (£1,000 neu lai) a rhodio mwy bob blwyddyn. Croesewir yn arbennig gyfleoedd i ddatblygu partneriaethau aml-flwyddyn gydag elusennau dehol allweddol. Am ragor o wybodaeth ewch i'w **gwefan** neu cysylltwch â: [**charitablefoundation@dssmith.com**](mailto:charitablefoundation@dssmith.com)

Cyllid Ewropeidd ar gyfer Ynni Adnewyddol

Gwnewch gais am grant ynni adnewyddol Interreg Gogledd-Orllewin Ewrop i helpu i ariannu eich prosiect ynni adferadwy. Mae'r rhaglen yn edrych yn arbennig am brosiectau sy'n ymwneud ag arddangos, gweithredu a chyflwyno, ac sy'n cyfrannu at un o Amcanion Penodol Blaenoriaeth 2: Carbon isel. **Dyddiad Cau: 31 Gorffennaf 2018.**

Ymddiriedolaeth Elusennol Frank Homfray

Prif ffocws yr ymddiriedolaeth yw cynorthwyo pobl ifanc ddifreintiedig yn ardal De Cymru. Bydd yr ymddiriedolaeth yn edrych ar achosion teilwng eraill o fewn 50 milltir i Gaerdydd. Am ragor o fanylion cysylltwch â: [**jgrhomf@aol.com**](mailto:jgrhomf@aol.com)

Go Think Big

Os ydych chi rhwng 15-24 mlwydd oed gallech gael cyfle o dderbyn hyd at £55 o gyllido. Mae GoThinkBig yn darparu cyllid ar gyfer syniadau sy'n helpu eich cymuned. Gall eich prosiect fod wedi'i seilio ar unrhyw boeth o weithdai sgiliau podlediadau neu ddarnau newyddiadurol, i ddigwyddiadau byw, mentrau cymunedol neu apiau.

Ymddiriedolaeth Elusennol Invigorate

Mae'r ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau i unigolion a sefydliadau sy'n ymgymryd â gweithgareddau mewn meysydd sy'n cynnwys addysg, treftadaeth a chadwraeth, gwyddoniaeth, hawliau dynol a'r amgylchedd. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â: [**cathy.hillam@bakertilly.co.uk**](mailto:cathy.hillam@bakertilly.co.uk)

Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Cynllun Cymunedau'r DGT yw olynydd Cronfa Gymunedau Tirlenwi (LCF) yng Nghymru. Bydd prosiectau'n dal i elwa o unrhyw gefnogaeth LCF a ddyfarnwyd cyn 31 Mawrth 2018. Ceir cyfnod trosglwyddo dwy flynedd o hyd (1 Ebrill 2018 tan 31 Mawrth 2020) i alluogi cwblhau prosiectau LCF yng Nghymru ac i wario pob LCF sy'n weddill yng Nghymru. Bydd y cynllun newydd yn cefnogi prosiectau cymunedol ac amgylcheddol lleol o unrhyw sector syn gweithredu of fewn cylch o 5 milltir o rai gorsafoddd trin a throsglwyddo gwastraff neu safleoedd tirlenwi. Mae'r cylch cyntaf bellach ar agor ers **30 Ebrill 2018**, gyda dyddiad cau

ar **26 Gorffennaf 2018**. Mae grantiau rhwng £5,000 a £49,999 ar gael. Gellir cael rhagor o fanylion ar wefan WCVA **yma** neu drwy e-bostio [**LDTgrants@wcva.org.uk**](mailto:LDTgrants@wcva.org.uk)

Ymddiriedolaeth Elusennol Lennox Hannay

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Lennox Hannay yn rhoi grantiau i elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Bydd grantiau fel arfer rhwng £1,000 a £3,000. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi ystod eang o achosion elusennol. Yn y gorffennol, yn eu plith roedd ymchwil feddygol, llesiant ieuencid a henoed, y celfyddydau, lles anifeiliaid, ac er budd tramor. Ni does dyddiad cau, a bydd ymddiriedolwyr yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn i adolygu ceisiadau. Am ragor o wybodaeth ac i wybod sut i ymgeisio, cysylltwch os gwelwch yn dda â: [**charities@rftrustee.com**](mailto:charities@rftrustee.com)

Sefydliad Lindley

Mae'r sefydliad yn cefnogi gweithgareddau sy'n cynnwys lleihau tloedi, celfyddydau a diwylliant, cadwraeth a threftadaeth, chwaraeon, anifeiliaid a'r amgylchedd a datblygu cymunedol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: [**couttscharities@coutts.com**](mailto:couttscharities@coutts.com)

Skipton Grassroots Giving

Derbynnir ceisiadau nawr gan grwpiau cymunedol am grantiau o £500. Yn 2017, ymgeisiodd cannoedd o grwpiau cymunedol, clybiau a sefydliadau o bob cwr o'r DU i Grassroots Giving a bwriwyd record o 40,000 o bleidleisiau ar lein ac yng nghanhennau Skipton gan y cyhoedd. Gellir gweld manylion derbynwyr grantiau'r gorffennol ar y wefan. **Dyddiad cau: 31 Gorffennaf 2018.**

Cynllun Grantiau Cymru O Blaid Affrica Llywodraeth Cymru

Bydd Cynllun Grantiau Cymru O Blaid Affrica Llywodraeth Cymru yn galluogi sefydliadau ledled Cymru i gael cyllid ar gyfer prosiectau Cymru-Affrica ar raddfa fechan. Dyrennir cyllid o dan bedwar maes thematic: iechyd, bywoliaeth gynaliadwy, dysgu gydol oes, a newid hinsawdd a'r amgylchedd. Mae cylch cyllido ar gyfer grantiau canolig rhwng £5,000 a £15,000 ar agor o 4 Mai 2018 tan 29 Mehefin 2018, ar gyfer prosiectau sy'n cwrdd â meini prawf y cynllun. Dilynir hyn gan gylich o grantiau bychain yn yr haf, ar gyfer prosiectau rhwng £500 a £4,999. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan WCVA **yma** neu e-bostiwrch [**walesafricagrants@wcva.org.uk**](mailto:walesafricagrants@wcva.org.uk)

Cyllido Torfol a Chodi Arian Ar-lein

BT MyDonate

Mae MyDonate yn wasanaeth codi arian dielw, ar-lein gan BT ar gyfer elusennau yn y DU. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu ffordd ddiogel, hawdd ei defnyddio i filiynau o bobl godi arian dros eu hoff elusen. Gyda MyDonate, mae eich elusen yn derbyn yr holl rodd – yn ogystal â'r Rhodd Cymorth lawn o 25 y cant – gyda dim ffioedd ar wahân i'r rhai a godir gan gwmni cerdyn debyd neu gerdyn credyd y rhoddwr.

CharityChoice

Fel cyfeirlyfr elusennau mwyaf y DU, mae CharityChoice yn rhestru dros 160,000 o elusennau ar-lein. Mae CharityChoice wedi bod yn helpu pobl i ddod o hyd i elusennau ers dros 25 mlynedd. Gall elusennau sydd wedi'u cofrestru yn y DU elwa ar gofnod 'microwefan' wedi'i phersonoli yn rhad ac am ddim o fewn cyfeirlyfr ar-lein CharityChoice, sy'n cynnwys cyfleuster rhoddi diogel a heb gomisiwn ar-lein yn rhad ac am ddim. Mae'r pecyn sylfaenol yn rhad ac am ddim, gyda thanysgrifiad premiwm yn costio £89 y flwyddyn yn ogystal â TAW.

Crowdfunder

Mae Crowdfunder yn gymuned o fwy na 400,000 o bobl sy'n ariannu'r newid y maen nhw am ei weld. Mae Crowdfunder wedi'i ddefnyddio fel llwyfan gyllido ar gyfer syniadau busnes, elusennau, pobl mewn angen, grwpiau cymunedol, clybiau chwaraeon, pleidiau gwleidyddol a llawer mwy. Mae miloedd o bobl wedi defnyddio Crowdfunder i godi'r arian Mae miloedd o bobl wedi defnyddio Crowdfunder i godi'r arian sydd ei angen arnynt er mwyn gwneud i bethau ddigwydd. Gallwch godi arian trwy gyfraniadau neu drwy gynnig gwobrau, neu gyda chyfranddaliadau cymunedol. Mae grantiau +Funders ar gael i roi cyflenwad ychwanegol o arian.

Earth Ways

Cafodd plattform cyllido torfol Earth Ways ei greu er mwyn helpu codi arian ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi tair egwyddor foesegol allweddol: Gofal am y Ddaear, Gofal am Bobl a Rhannu'n Deg. Cyfeiria Gofal am y Ddaear at weithgareddau sy'n diogelu'r pridd, cadw'r aer a'r dŵr yn lân, gwarchod bioamrywiaeth ac arbed egni a gwarchod adnoddau naturiol. Mae Gofal am Bobl yn golygu iechyd a lles, maeth o fwyd da, dysgu gydol oes, ymddiriedaeth, parch a gwaith arwyddocaol. Pwysleisia Rhannu'n Deg ddosraniad teg o adnoddau, rhyngweithio a chydweithio, lleihau prynwriaeth ac ailfeddwl am amcanion twf, cynnydd a datblygiad. Dylai unrhyw ymgyrch y dymunech ei chyflwyno fod yn gweithio tuag at helpu o leiaf un o'r egwyddorion a pheidio â dylanwadu'n negyddol ar yr un o'r tair arall.

EveryClick

Mae EveryClick yn gwmni technoleg a chodi arian sydd wedi ennill sawl gwobr. Mae ffioedd yn cael eu cadw gan ei bartner talu Technology Trust. Mae EveryClick yn gwmni sy'n gwneud elw sy'n cynhyrchu ei refeniwiau o'i wefan siopa a chymharu prisiau Give as you Live, sy'n caniatáu i ddefnyddwyr godi arian wrth iddynt siopa ar y we. Mae'n cadw hanner comisiwn y manwerthwr i ddatblygu'r plattform siopa ac i wella profiad y defnyddiwr. Mae Give as you Live yn ceisio darparu ffrydiau refeniw newydd ar gyfer elusennau, heb godi ffioedd ar yr elusen na'i chefnogwyr, trwy ddefnyddio comisiwn y manwerthwr.

Givey

Mae Givey yn sefydliad dielw sy'n codi ffi i dalu cost prosesu trafodion a rhedeg ei plattform cyllido torfol. Mae Givey yn dweud: *'Ni yw hyrwyddwyr elusennau bach a chanolig; mae gennym ethos o dryloywder ac rydym yn credu mewn defnyddio technoleg i helpu elusennau i godi rhagor o arian.'*

GlobalGiving

GlobalGiving yw'r gymuned gyllido torfol fyd-eang gyntaf a'r fwyaf sy'n cysylltu sefydliadau dielw, rhoddwyr a chwmnïau mewn bron i bob gwlad ledled y byd. Rydym yn ei gwneud hi'n bosibl i sefydliadau dielw o Afghanistan i Zimbabwe (a channoedd o leoedd rhwng y rhain) i gael yr offer, yr hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i fod yn fwy effeithiol a gwneud ein byd yn lle gwell.

GoFundMe

Cafodd GoFundMe ei lansio yn 2010, a hon yw'r llwyfan codi arian cymdeithasol fwyaf yn y byd, gyda mwy na \$3 biliwn wedi'i godi hyd yn hyn. Gyda chymuned o'n rhagor na 25 miliwn o roddwyr, mae GoFundMe yn newid y ffordd mae'r byd yn rhoi waeth a ydych yn codi arian ar gyfer elusen leol, sefydliad dielw rhyngwladol neu i unigolyn yn eich ardal sy'n ei haeddu, mae GoFundMe yn ffordd gyflym a hawdd o godi arian. Defnyddiwch eich ymgyrch GoFundMe i godi arian ar ddiwedd y flwyddyn neu ar gyfer prosiectau arbennig.

Growing A Greener Britain – Cyllido Torfol Spacehive

Beth am weld Prydain wyrddach drwy greu neu drawsnewid gwagleoedd gwyrdd ar draws y DU? Mae arian ar gael i drawsnewid syniadau gwefreiddiol yn realiti: felly os ydych am dacluso rhyw ardd gymunedol neu adeiladu fferm acwaponig ben to, hoffai Tyfu Prydain Wyrddach gael golwg ar eich syniadau! Gall unrhyw un gael syniad a'i lanlwytho ar y plattform cyllido torfol, Spacehive. Os yw'ch prosiect chi yn boblogaidd gyda'r dorf, ac yn cyrraedd ein meini prawf, gallech gael eich dwylo ar addewid o hyd at £5,000! Sefydlwyd Tyfu Prydain Wyrddach gan The Landscape Group, contractwr cenedlaethol sy'n gofalu am leoliadau gwyrdd cyhoeddus ar draws y DU. #GreenerBritain

Just Giving

Mae Just Giving yn blatfform cyllido torfol sy'n gwneud i bethau da ddigwydd! Cenhadaeth Just Giving yw sicrhau nad oes unrhyw achos gwerth chweil nad yw'n cael ei ariannu. Ers ei sefydlu yn 2001, mae Just Giving wedi helpu i 25,788 o elusennau ar draws y byd godi dros \$4.2 biliwn tuag at achosion da. Gellir codi arian tuag at unrhyw beth sydd ag effaith gadarnhaol ar unigolion, gymunedau a'r amgylchedd. Os na wnewch chi gyrraedd eich targed, byddwch yn dal i dderbyn faint bynnag y byddwch wedi ei godi (ac eithrio ffioedd bychain), felly byddwch yn dal i lwyddo i wneud i bethau da ddigwydd. Gallwch lansio ymgyrch mewn munudau a chyllido'n dorfol yr arian sydd ei angen arnoch ar gyfer prosiect neu apêl arbennig. Gall pobl godi arian ar gyfer yr ymgyrch yn ogystal â rhoi arian. Golyga hyn y bydd eich ymgyrch yn cael ei hyrwyddo ar y wefan ac y bydd eich stori'n cyrraedd at 18m o aelodau.

Localgiving

Mae Localgiving yn elusen sy'n helpu sefydliadau ar lawr gwlad i godi arian ar-lein, datblygu eu sgiliau digidol, a chysylltu â phobl leol. Ers 2009, maent wedi helpu sefydliadau elusennol i godi dros £15 miliwn ar-lein!. Ymunwch am £96 y flwyddyn i gael mynediad at roddion diogel, rhodd gymorth awtomatig, arian cyfatebol rheolaidd, adroddiadau manwl, a chymorth un i un.

PayPal Giving Fund

Mae PayPal Giving Fund yn rhoi mynediad i elusennau o bob maint at raglenni rhoi cwsmeriaid, ar draws PayPal, eBay a rhagor. Mae PayPal Giving Fund yn sefydliad dielw cofrestredig sy'n codi cyllid newydd ar gyfer elusennau trwy dechnoleg. Mae defnyddio PayPal Giving Fund yn rhad ac am ddim, ac mae'r safle'n darparu adroddiadau am roddion a rhoddwyr, yn rhoi derbynebaw treth, yn agregu rhoddion i'w dosbarthu'n electronig bob mis, ac yn ymdrin â gofynion cofrestru cyfreithiol.

TheBigGive

Mae The Big Give yn galluogi elusennau a phrosiectau o ddiddordeb i gael eu darganfod ac yn gwneud y proses o roi iddynt yn hawdd. Yn ogystal ag ymgyrchoedd codi arian cyfatebol, maent hefyd yn darparu nifer o wasanaethau eraill i helpu elusennau, unigolion a dyngarwyr i gysylltu ac i godi rhagor o arian ar-lein. Cefnogir The Big Give gan **reed.co.uk**, sy'n helpu i ddarparu gwasanaeth cost-effeithiol ar gyfer elusennau sy'n ceisio codi cyllid, dyngarwyr sy'n dymuno trosoli eu rhoi, ac unigolion sy'n dymuno rhoi arian ar-lein.

Total Giving

Llwyfan codi arian am ddim ar-lein i elusennau yw Total Giving, gyda mwy na 13,000+ o elusennau wedi cofrestru ledled y DU. Mae'r arian yn mynd ar unwaith ac yn uniongyrchol i'ch elusen. Nid oes unrhyw ffioedd cofrestru na rhai parhaus.

Virgin Money Giving

Mae Virgin Money Giving yn caniatáu elusennau, cyrff corfforaethol, timau ac unigolion i godi arian ar-lein yn haws, i gefnogi llu o weithgareddau mewn modd effeithlon. Mae'r wefan yn codi ffi gychwynnol un tro o £150 yn ogystal â TAW, yn ogystal â ffi am drafodion o 2% ar roddion a ffioedd am ddigwyddiadau.

WeTheTrees

Dechreuwyd 'We The Trees' pan sylweddolodd grŵp o bermamaethwyr gweithredol bod ar y gymuned amgylcheddol wirioneddol angen dod o hyd i ffordd unigryw o godi arian. Mae 'We The Trees' yn rhoi cyfle i ni gyd gyflwyno ein prosiectau i'n teulu, ffrindiau a'r gymuned ehangach a chynnig iddynt y cyfle i gyfrannu. Ymunwch â'r ymgais hon, **cyflwynwch eich ymgyrch** a **chefnogwch eich cymuned** !

Wonderful

Mae Wonderful yn sefydliad dielw sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr ac yn cael ei ariannu'n hollol trwy nawdd corfforaethol gan fusnesau dyngarol, sy'n gwarantu nad yw elusennau, codwyr arian a noddwyr yn talu unrhyw beth o gwbl am redeg ymgyrchoedd cyllido torfol.

YouCaring

Llwyfan codi arian ar-lein yw YouCaring a baratôdd y ffordd ar gyfer Compassionate CrowdfundingTM- gan rymuso pobl o bedwar ban byd i ennyn cefnogaeth dros achosion personol ac elusennol heb y ffioedd codi arian sy'n gysylltiedig â safleoedd eraill. Hyd yma, mae gan y gymuned 5.5 miliwn o aelodau ac mae wedi codi dros \$500 miliwn i achosion dyngarol. Mae templed hawdd ei defnyddio YouCaring yn caniatáu i chi greu tudalen hafan effeithiol ar gyfer eich ymgyrch cyllido torfol. Dangoswch i roddwyr posibl sut gallant helpu trwy adrodd stori afaelgar, lanlwytho nifer o luniau a fideos a phostio diweddariadau.

Elusennau, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau

Ymddiriedolaeth Goffa Alan Evans

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig grantiau bach i sefydliadau elusennol sy'n weithredol yn y DU. Rhoddir cyllid yn ôl disgrisiwn yr Ymddiriedolwyr ac yn y gorffennol dyfarnwyd grantiau o £1,000 a £1,500. Mae'r cynllun yn anelu at ariannu prosiectau ar gyfer diogelu meysydd o harddwch naturiol neu ddiddordeb hanesyddol yn barhaol, gan gynnwys prosiectau sy'n ymwneud ag anifeiliaid neu blanhigion. Mae Ymddiriedolaeth Goffa Alan Evans ar gau dros dro i ymgeiswyr newydd, wrth iddyn nhw drosglwyddo ymddiriedolwyr. Gellir gwneud cais i: **aevals@roydswithyking.com**

Ymddiriedolaeth Elusennol Albert Van Den Bergh

Mae grantiau ar gael ar gyfer sefydliadau elusennol sydd yn ymwneud ag ymchwil iechyd a gofal i gleifion sydd â chancr, parlys ymledol neu glefydau ac anabledau eraill, gofal ar gyfer yr henoed a phlant yn y DU. Mae ariannu ar gael ar gyfer pwrpasau elusennol cyffredinol gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gefnogi elusennau sy'n cynorthwyo ymchwil iechyd, a gofal i 'r henoed a phlant. Mae grantiau blaenorol wedi eu rhoi i ardaloedd yn cynnwys cadwraeth, help cymunedol a hosbisau. Am wybodaeth bellach e-bostiwch: **jane@trevornick.co.uk** neu **trustees@albertvandenbergh.org**

Sefydliad ASDA

Mae grantiau cyfalaf o rhwng £5,000 ac £20,000 ar gael i elusennau a sefydliadau dielw yn y DU ar gyfer prosiectau lleol sydd o fudd i'r gymuned ehangach, yn mynd i'r afael ag anghenion lleol, ac yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r gymuned leol.

Gwobrau am Ragoriaeth mewn Ailgylchu a Rheoli Gwastraff

Mae'r gwobrau am ragoriaeth mewn ailgylchu a rheoli gwastraff, sy'n cael eu gweithredu gan letsrecycle.com, yn bwriadu cydnabod arloesedd, ymroddiad a llwyddiant wrth ailgylchu a rheoli gwastraff yn gynaliadwy yn y DU. Gwahoddir ceisiadau gan awdurdodau lleol, cwmnïau rheoli gwastraff, mentrau cymdeithasol, ailbroseswyr a chan ddiwydiant a masnach yn y DU (gweler disgrifiadau o gategoriâu'r gwobrau am ragor o wybodaeth). Am ragor o wybodaeth ynghylch sut i gael y grant hwn yn lleol, cysylltwch â daniella.t@letsrecycle.com neu iona.s@letsrecycle.com

Ymddiriedolaeth Elusennol Balcombe

Mae grantiau ar gael ar gyfer sefydliadau elusennol yn y DU sy'n ymgymryd â phrosiectau addysg, yr amgylchedd, iechyd a lles. Mae ariannu ar ddisgresiwn yr ymddiriedolwyr. Dyfarnwyd grantiau blaenorol o rhwng £200 a £160,000. Am ragor o wybodaeth e-bostiwrch: jonathan.prevezer@citroenwells.co.uk

Ymddiriedolaeth Elusennol Belsize Rhif 1

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig grantiau i sefydliadau elusennol sy'n gweithio yn y DU sy'n cynnal prosiectau ym meysydd cadwraeth, treftadaeth a'r amgylchedd. Mae cyllid ar gael yn ôl disgrisiwn yr Ymddiriedolwyr ac nid oes uchafswm o ran gwerth. Mae'r broses o wneud cais yn mynd rhagddi a gall ymgeiswyr â diddordeb wneud cais unrhyw bryd. Am ragor o wybodaeth ffoniwch **01235 232700**.

Ymddiriedolaeth Elusennol Bernard Sunley

Mae'r Sefydliad yn darparu grantiau i elusennau cofrestredig, derbyniedig neu eithriedig yng Nghymru a Lloegr i gefnogi ystod eang o brosiectau elusennol ym meysydd cymunedol, addysg, iechyd a lles cymdeithasol. Mae tair lefel o grant ar gael; bach hyd at £5000, canolig £5001-£24,999 a mawr dros £25,000. Yn anaml bydd y Sefydliad yn talu'r costau llawn (neu hyd yn oed 50%) gan ei fod yn disgwyl bod yn un o nifer o gyfranogwyr i'r prosiect. Mae'r ymddiriedolwyr yn cefnogi prosiectau cyfalaf yn unig, dim costau gweithredu. Derbynnir ceisiadau drwy'r ffurflen gais ar-lein yn unig. I gael rhagor o wybodaeth Ymwelwch â www.bernardsunley.org

Cronfa Gymunedol Sefydliad Bluestone

Sefydlwyd Cronfa Gymunedol Sefydliad Bluestone yn 2017 mewn partneriaeth â Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro i gynnig cymorth ariannol gyda chostau prosiectau, mentrau a gwirfoddoli cymunedol ledled Sir Benfro.

Mae Cronfa Gymunedol Sefydliad Bluestone yn cynnig cyllid i –

- Brosiectau economaidd a fydd yn meithrin entrepreneuriaeth ac yn gwella cyfleoedd am gyflogaeth a datblygiad
- Prosiectau sy'n codi ymwybyddiaeth amgylcheddol trwy addysg a rhaglen wirfoddoli
- Prosiectau cymdeithasol sy'n mynd i'r afael ag effeithiau amddifadedd a thlodi, gyda phwyslais arbennig ar ieuencid

Rhoddir blaenoriaeth i sefydliadau sy'n dangos eu bod yn barod i helpu eu hunain. Gall ymgeiswyr wneud cais am gyllid gwerth hyd at £5,000. Ystyrir ceisiadau am gostau cyfalaf a refeniw fel ei gilydd. Ni chynigir nawdd neu gymorth uniongyrchol i unigolion trwy'r gronfa hon.

Ymddiriedolaeth Bodfach

Grantiau ar gyfer elusennau yng nghanolbarth Cymru a'r gororau sy'n gysylltiedig â thai fforddiadwy, gofal i'r henoed, helpu pobl ifanc, gwarchod hen adeiladau, a chefnogi

mannau gwyrdd a pharciau cyhoeddus. Mae ffurflenni cais ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

Ymddiriedolaeth Elusennol Bothwell

Mae grantiau ar gael ar gyfer sefydliadau elusennol sy'n ymgymryd â phrosiectau sy'n cynnwys materion cefn gwlad o fewn y DU. Mae'r grantiau ar gael yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolaeth. Mae'n rhaid gwneud ceisiadau yn ysgrifenedig.

Cysylltwch ag Ymddiriedolaeth Elusennol Bothwell i gael rhagor o wybodaeth ar **0208 657 6884**.

Cronfa Garbon British Airways

Mae Cronfa Garbon British Airways yn cefnogi prosiectau egni adnewyddol ac egni effeithlon yn y gymuned ar draws Prydain. Mae'n gynllun gwirfoddol ar gyfer cwsmeriaid British Airways sy'n dymuno trafelio'n gyfrifol a lleihau effaith eu siwrnai. Mae Pure Leapfrog yn rheoli arian a roddir ar ran British Airways ac mae'r ddau sefydliad yn cydweithio i ddod o hyd i brosiectau cymunedol addas sydd nid yn unig yn lleihau allyriadau carbon ond sydd hefyd yn cyflenwi effaith gymdeithasol gryf i gymunedau. Cewch fwy o wybodaeth ar wefan [Pure Leapfrog](#).

Y Gymdeithas Ecolegol Brydeinig – Grantiau Allgymorth

Mae grantiau ar gael i gymdeithasau i gefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo gwyddoniaeth ecolegol i gynulleidfaoedd eang. Mae'r gronfa hon yn cael ei rheoli gan Y Gymdeithas Ecolegol Brydeinig (CEB). Mae ecoleg yn cael ei ddiffinio gan CEB fel yr astudiaeth wyddonol o ddosbarthiad, helaethrwydd a dynameg organeddau, eu cyd-adweithio ag organeddau eraill a'u hamgylchedd ffisegol. £2,000 yw'r uchafswm a ddyfernir. Mae'n hanfodol fod y ceisiadau yn hyrwyddo gwyddoniaeth ecolegol ac yn tynnu sylw'r cyhoedd at hyn. Rhaid i'r holl amcanion gael eu hanelu at gynulleidfa anacademaidd a rhaid i bob prosiect ddarparu prawf o ryngweithio uniongyrchol gyda'r cyhoedd. **Bydd y ffenest gyllido nesaf yn agor tua chanol mis Gorffennaf 2018.**

Cronfa Gymunedol Estyniad Burbo Bank

Grantiau ar gael i amrywiaeth o sefydliadau nid-er-elw ar gyfer prosiectau cymunedol ac amgylcheddol newydd neu bresennol sydd o fudd i breswylwyr lleol yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint, y Wirral a Sefton. Sefydlwyd Cronfa Gymunedol Estyniad Burbo Bank gan Orsted (DONG Energy gynt), y cwmni sy'n gyfrifol am y fferm wynt alldraeth newydd ym Mae Lerpwl. Bydd y gronfa yn rhoi £225,000 bob blwyddyn am y 25 mlynedd nesaf (2015-2040); grantiau bach £500-£5,000 a phrif grantiau £5,001-£25,000. Bydd rhaid i geisiadau prif grantiau gael ariannu cyfatebol o 20% (ddim rhaid ei gael cyn gwneud cais). Gall yr arian gefnogi gwelliannau adeiladau cymunedol, prosiectau amgylcheddol fel gwella parciau a thiroedd agored, a phrosiectau bywyd gwyllt yn cynnwys gwelliannau i gynefinoedd morol ac arfordirol. Y dyddiadau cau nesaf ar gyfer ceisiadau yw **26 Medi 2018 / 3 Ebrill 2019**. Mae mwy o wybodaeth a map rhyngweithiol yn dangos yr ardal a fydd yn elwa ar [wefan](#) GrantScape neu e-bost: bbecf@grantscape.org.uk

Cronfa Fusnes Gwyrdd yr Ymddiriedolaeth Garbon

Gwasanaeth cefnogi yw [Cronfa Fusnes Gwyrdd Yr Ymddiriedolaeth Garbon](#) sy'n ymdrin ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer cwmnïau bach a chanolig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'n darparu cymorth ariannol uniongyrchol drwy asesiadau egni, gweithdai hyfforddi, cymorth caffael cyfarpar a 15% o gost y prosiect hyd at £5,000. Yn ogystal, mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn mynnu bod busnesau'n defnyddio cyflenwyr achrededig wrth wneud cais am gyfraniad cyfalaf. Gellir dod o hyd i gyflenwyr achrededig yn y [Cyfeirlyfr Busnesau Gwyrdd](#) neu yn rhestr [BESA](#). Fel arall, gall cwmnïau ddefnyddio

gwasanaeth cymorth caffael cyfarpar am ddim yr Ymddiriedolaeth Garbon i helpu i ddod o hyd i gyflenwyr cyfarpar sy'n gallu rhoi dyfynbrisiau manwl ac sydd â hanes o gyflenwi prosiectau arbed ynni.

Ymddiriedolaeth YMCA Caerdydd

Bydd y Sefydliad yn ystyried ceisiadau am grantiau gan fudiadau gwirfoddol, sefydliadau elusennol ac unigolion (£250-£2000). Cred yr ymddiriedolwyr mai'r ardal graidd a wasanaethir gan yr Ymddiriedolaeth yw Caerdydd a'r Fro a Bro Morgannwg. Bydd grantiau fel arfer yn cael eu cynnig ar gyfer gwariant cyfalaf. E-bostiwrch **Jan.johnson@ymcacardiff.wales** neu ffoniwch 07980 772397 os gwelwch yn dda i gael ffurflen gais.

Ceredigion – Cynllun Grant Cymunedol

Mae cymorth ariannol ar gael i grwpiau gwirfoddol a chymunedol yng Ngheredigion i gefnogi prosiectau a fydd o fudd i'r gymuned leol. Mae grantiau cyfalaf gwerth hyd at £25,000 ar gael i grwpiau cymunedol, cynghorau cymuned, neu gymdeithasau chwaraeon a chwarae gwirfoddol dilys sy'n bwriadu gwella a chynyddu'r amrediad o gyfleusterau, gweithgareddau a chyfleoedd yng Ngheredigion. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â **financegrants@ceredigion.gov.uk**

Ymddiriedolaeth Elusennol Chapman

Mae grantiau ar gael ar gyfer elusennau cydnabyddedig yng Ngogledd Cymru ar gyfer gwaith newydd ym meysydd gweithgareddau, iechyd a llesiant, gan gynnwys ymchwil, diwylliant, yr amgylchedd naturiol a threftadaeth, yn ogystal â gofal, y gymuned a chwrsela. Mae gan yr ymddiriedolaeth oddeutu £300,000 i'w rhoi mewn grantiau bob blwyddyn, gyda'r grantiau fel arfer rhwng £1,000 a £2,000. Mae'r ymddiriedolwyr yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn, ym mis Mawrth a mis Medi. Am ragor o wybodaeth ac i gael ffurflen gais ar lein, gweler wefan yr ymddiriedolaeth **yma**.

Sefydliad Charles Hayward

Dim ond i elusennau cofrestredig y mae'r Sefydliad yn dyfarnu grantiau. Mae grantiau mawr a bach ar gael, yn dibynnu ar lefel incwm y sefydliad sy'n gwneud cais, a'r uchafswm grant sydd ar gael yw £50,000. Bydd grantiau bychain yn cael eu hystyried bob dau i dri mis ar drefn dreigl gyda gwahoddiad i geisiadau am grantiau mawr ymuno â phroses dau gam. Rhoddir pwyslais ar ariannu prosiectau sy'n datblygu neu'n arloesi. Un maes penodol y mae gan y Sefydliad ddiddordeb ynddo yw prynu tir (neu adennill tir a brynwyd yn ddiweddar) i'w ddefnyddio ar gyfer gwarchodfeydd natur.

Cronfa Chestnut – Grantiau ar gyfer Cadwraeth

Mae Cronfa Chestnut, elusen annibynnol sy'n gweithio gyda'r Gwirfoddolwyr Cadwraeth (TCV), yn rhoi grantiau er mwyn annog a galluogi grwpiau cymunedol i gynnal gweithgareddau cadwraeth. Mae grantiau cychwynnol ar gael i grwpiau sydd newydd gael eu sefydlu – y grant cychwynnol mwyaf yw £150. Mae grantiau cymorth ar gael i grwpiau cadwraeth o unrhyw oedran a'r grant mwyaf sydd ar gael yw £350. Cysylltwch â **chestnut.fund@btinternet.com** am ragor o wybodaeth.

Elusennau CHK Cyf

Mae'r elusen yn dyrannu grantiau yn flynyddol i elusennau yn y DU sy'n ymwneud ag ystod eang o weithgareddau. Grantiau un tro ydynt tuag at gostau craidd neu i brosiect penodol lle mae ymgeiswyr wedi gofyn am gefnogaeth; yn cynnwys cyfraniad tuag at brosiect adeiladu, prynu offer arbenigol neu help gyda chostau rhedeg. Gall grantiau am fwy nag un mlynedd fod tuag at gostau sefydlu, neu am eitem benodol ar y gyllideb fel

cyflog, costau craidd neu brosiect penodol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried ceisiadau bob dau fis.

Ymddiriedolaeth Elusennol y CLA

Mae'r ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau i sefydliadau yng Nghymru a Lloegr sy'n canolbwyntio ar ddarparu mynediad i gefn gwlad ar gyfer unigolion anabl a phobl ifainc difreintiedig o ganol y ddinas. Mae hefyd yn cefnogi datblygiad addysg mewn amaethyddiaeth, garddwriaeth a chadwraeth gyfer y grwpiau hyn. Y grant cyfartalog yw £2,500 a rhoddir pwyslais ar brosiectau llai lle bydd y grant yn gwneud cyfraniad gwirioneddol tuag at lwyddiant y prosiect. Dylai ceisiadau fod ar gyfer prosiect penodol neu eitem sy'n gysylltiedig ag offer cyfalafol, yn hytrach na chostau rhedeg parhaus. Rhaid i brosiectau sy'n seiliedig ar weithgareddau garddwriaeth allu dangos eu bod nhw'n darparu hyfforddiant a fydd yn arwain at gymhwyster cydnabyddedig ac achrededig ar gyfer y cyfranogwyr. I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at: charitabletrust@cla.org.uk neu ewch i'r **wefan** i gael rhagor o wybodaeth ac er mwyn lawrlwytho ffurflen gais.

Clothworkers' Foundation

Sefydlwyd hwn gan The Clothworkers' Company yn 1977. Cangen elusennol annibynnol y Cwmni ydyw ar gyfer gwaith elusennol. Ers ei sefydlu, mae'r Ymddiriedolaeth wedi dyfarnu cyfanswm o £100m mewn grantiau. Nod y Sefydliad yw gwella bywydau pobl a chymunedau, yn arbennig y rhai dan anfantais. Dyfernir grantiau cyfalaf i elusennau sy'n gweithio yn un o feysydd penodol y rhaglen ac sydd â'u hincwm blynyddol yn llai na £15m. Mae dwy ffrwd ariannu, ac mae gan y ddwy gap ar incwm sefydliadol. Swm cyfartalog y grant a ddyfernir yw £7,000 - £25,000 a derbynnir ceisiadau drwy gydol y flwyddyn. Mae cymrodoriaeth gadwriaethol flynyddol a bwrsariaethau i gadwriaethwyr cymwysedig ar gael ar gyfer mynychu cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi. Mae'r Sefydliad yn gweithio'n uniongyrchol â'r ymgeiswyr. Ni dderbynnir ceisiadau e-bost bellach.

Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

Mae'r Coalfields Regeneration Trust wedi bod ar waith yn weithredol yng Nghymru er 1999, ac mae wedi buddsoddi dros £16 miliwn mewn adfywio cymunedol. Bydd Swyddogion datblygu yn gweithio gyda'r gymuned er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n cael yr effaith fwyaf ar y ffyniant, cydnerthedd a'r cyfleoedd sydd ar gael. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu cydberthnasau cadarn gyda'r Llywodraeth, awdurdodau lleol, Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf ac amrywiaeth o sefydliadau trydydd sector, rhwydweithiau a gwasanaethau cynnal. Gall Rhaglen Grantiau Cymunedol Meysydd Glo yng Nghymru ddyfarnu grantiau rhwng £500 a £7,000 ar gyfer prosiectau y gellir eu cwblhau cyn pen 12 mis ac sy'n gallu adnabod canlyniadau cadarnhaol mesuradwy i bobl. Bydd angen i brosiectau fodloni un neu fwy o wyth thema er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth gan y cynllun. Noder! Mae cystadleuaeth frwd am gyllid yng Nghymru.

Elusen Cobb

Grant ar gyfer sefydliadau elusennol sydd yn gweithio i hyrwyddo amgylchedd cynaliadwy drwy addysg. Mae testunau cymwys yn cynnwys sgiliau gwledig traddodiadol, ailgylchu, bwyd a iechyd, a chynhyrchiad bwyd organig. Gall ceisiadau grant cael eu cyflwyno ar unrhyw adeg ac uchafswm grant yw £750. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr elusen; eleanor.allitt@btinternet.com neu Eleanor Allitt, Elusen Cobb, 2 New Cottages, Village Street, Offchurch, Leamington Spa, CV33 9AP

Cronfa Fuddsoddi Cymunedol- benthyciadau trwy Fuddsoddiad Cymdeithasol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

Mae benthyciadau o rhwng £1,000 a £250,000 ar gael i fusnesau cymdeithasol sydd wedi'u corffori'n addas ac elusennau sy'n gallu dangos eu gallu i ad-dalu. Prin yw'r cyfyngiadau ynghylch sut y gellir defnyddio'r arian, ond fel arfer mae'r benthyciadau ar gyfer prynu asedau, gan gynnwys ynni cymunedol, neu sefydlu/ehangu gweithgareddau cynhyrchu incwm.

Cronfa Gymunedol Leol y Co-op

Mae grantiau o hyd at £2,500 ar gael i grwpiau bach, lleol, gwirfoddol a grwpiau cymunedol i gefnogi prosiectau sydd o fudd i gymunedau lleol o gwmpas siopau bwyd a pharlyrau angladd y Co-op ledled y DU ac Ynys Manaw. Mae'r Gronfa Gymunedol yn gweithredu'n flynyddol ac mae ceisiadau ar gau ar hyn o bryd. Bydd y Co-op yn chwilio am achosion newydd i'w cefnogi yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Ymddiriedolaeth Cuthbert Horn

Bwriad y cynllun yw cefnogi sefydliadau elusennol at ddibenion elusennol cyffredinol. Rhoddwyd grantiau blaenorol i ystod o weithgareddau fel cadwraeth, addysg, gwarchod yr amgylchedd, help i blant dan anfantais, cerddoriaeth, ymchwil a thrafnidiaeth. Mae ariannu ar ddisgresiwn yr Ymddiriedolwyr. Grantiau blaenorol rhwng £2,000 a £3,000 at gostau ynghlwm â phrosiect. Am fwy o wybodaeth e-bostiwrch: [**ian.woodhouse@arnoldhill.co.uk**](mailto:ian.woodhouse@arnoldhill.co.uk)

Ymddiriedolaeth Elusennol Dischma

Mae grantiau ar gael ar gyfer sefydliadau elusennol yn y DU sy'n cyflawni gweithgareddau cadwraeth. Dyfarnir yr arian yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr, sy'n cyfarfod yn flynyddol i adolygu ceisiadau ysgrifenedig. Mae ceisiadau blaenorol wedi bod rhwng £500 a £5,000. I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at: [**linda.cousins@rathbones.com**](mailto:linda.cousins@rathbones.com)

Ymddiriedolaeth Elusennol D'Oyly Carte

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol D'Oyly Carte yn ariannu elusennau cofrestredig y Deyrnas Unedig sy'n gweithredu yn y DU ym meysydd hyrwyddo'r celfyddydau, iechyd a lles meddygol, a gwarchod neu wella'r amgylchedd. Mae'r ffocws ar gyfer 2018 - 2021 yn cynnwys mynediad at y celfyddydau ar gyfer pobl ifanc, darparu therapi celf a cherddoriaeth i wella ansawdd bywyd yr henoed a'r anabl, a diogelu a gwarchod cefn gwlad. Mae'r rhan fwyaf o'r grantiau yn grantiau sengl dros gyfnod o un flwyddyn rhwng £500 a £5,000. Dylai pob cais am grant gael ei wneud ar-lein drwy www.doylycartecharitabletrust.org <<http://www.doylycartecharitabletrust.org>> lle y gellir lawrlwytho canllawiau ymgeisio llawn yr ymddiriedolaeth. Mae'r ymddiriedolwyr fel arfer yn ystyried ceisiadau ym mis Mawrth, Gorffennaf a Thachwedd. Os oes arnoch angen fersiwn o'r ffurflen gais ar ffurf fwy hygyrch, anfonwch e-bost at [**info@doylycartecharitabletrust.org**](mailto:info@doylycartecharitabletrust.org)

Ymddiriedolaeth Dulverton

Sefydlwyd yn 1949, mae'r sefydliad yn rhoi grantiau hyd at gyfanswm werth dros £3 miliwn bob blwyddyn ar gyfer elusennau cofrestredig y DU sy'n gweithio o fewn y meysydd canlynol: cyfleoedd ieuencid, lles cyffredinol, cadwraeth, gwarchodaeth, ac Affrica. Rhoddir grantiau i elusennau sydd ag incwm dros £200,000 a llai na £10 miliwn, a rhoddir blaenoriaeth i'r rhai ag incwm sy'n is na £5 miliwn. I gael y canllawiau llawn, ewch i'r wefan: [**www.dulverton.org**](http://www.dulverton.org)

Ymddiriedolaeth Ernest Cook

Mae adran addysg yr ymddiriedolaeth yn cynnig rhaglen eang o ddysgu sy'n seiliedig ar y tir ar gyfer plant a phobl ifanc ar ei hystadau. Mae'r ymddiriedolaeth yn derbyn ceisiadau i dderbyn grantiau ar gyfer prosiectau sy'n addysgu plant a phobl ifanc am y cefn gwlad a'r amgylchedd, yn y celfyddydau neu lythrennedd, ac mewn pynciau STEM. Mae gwaith sydd yn annog parhad sgiliau a chrefftau cefn gwlad o ddiddordeb arbennig i ymddiriedolwyr. Cofiwch! Disgwylir i'r holl geisiadau gysylltu â naill ai'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu gymwysterau cydnabyddedig. Mae grantiau ar gael hyd at £4,000 (bach) a dros £4,000 (mawr) ac yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn.

Sefydliad Esmée Fairbairn – Prif Grantiau

Sefydliad Esmée Fairbairn yw un o'r gwneuthurwyr grantiau annibynnol mwyaf yn y DU. Y blaenoriaethau ariannu ar gyfer elfen yr amgylchedd yw: Cysylltu pobl â natur a materion amgylcheddol; cadwraeth natur ar y tir ac ar y môr; gwrthsefyll effeithiau gweithgareddau dynol niweidiol a chynyddu dealltwriaeth o blanhigion, anifeiliaid ac organebau llai hysbys. Mae grantiau'n cefnogi costau craidd neu gostau prosiect, gan gynnwys cyflogau staff a gorbenion. Mae proses ymgeisio dau gam; yn gyntaf, gwnewch gais ar-lein (cewch gydnabyddiaeth trwy e-bost o fewn wythnos, a phenderfyniad o fewn mis), yna atebwch gwestiynau gan reolwr grantiau neu fuddsoddi cymdeithasol (penderfyniad ymhen dau i bedwar mis). Gwariwyd cyfanswm o £5.7m yn 2016 ar yr amgylchedd (37 grant). Roedd y rhain yn amrywio mewn maint o £15k i £600k. Hyd cyfartalog y grantiau oedd 30 mis. Nid oes unrhyw ddyddiadau cau neu gyfyngiadau ar ail-ymgeisio.

Sefydliad Esmée Fairbairn – Grantiau Bwyd

Nod y llinyn Bwyd yw dod o hyd i system amgen sy'n cynhyrchu bwyd o safon uwch mewn ffyrdd sy'n well i bobl, yr amgylchedd ac anifeiliaid. Nid oes uchafswm grant. Fodd bynnag, mae'r sefydliad yn cynnig nifer fach o grantiau dros £500,000 ac mae'n anarferol i'r sefydliad roi grant o'r maint hwn neu fwy i sefydliad nad oes ganddo gydberthynas ag ef eisoes. Blaenoriaethau'r grantiau yw: Arloesedd lleol o ran defnyddio dulliau amgen, bwyd a lles, a gweithio tuag at sector bwyd mwy cydlynol.

February Foundation

Mae'r Sefydliad yn dyfarnu grantiau i achosion elusennol dethol. Ariennir nifer o feysydd, gan gynnwys 'elusennau sy'n diogelu'r amgylchedd'. Swm cyfartalog y grant yw £5k ar gyfer costau craidd neu gyfalaf. Mae'r Sefydliad yn canolbwyntio ar reoli ei ymrwymadau presennol, er ei fod yn dal i dderbyn ceisiadau oddi wrth rai elusennau. Nid oes unrhyw ddyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau gan fod yr ymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniadau misol ynglŷn â dyfarnu grantiau; er hynny ni ddylai ymgeiswyr ailgyflwyno cais am o leiaf 12 mis a nodwch os gwelwch yn dda mai dim ond oddeutu 5% o'r ceisiadau sy'n llwyddiannus. Dylid anfon ceisiadau e-bost i rps@thefebruaryfoundation.org Bydd penderfyniad yr ymddiriedolwyr yn cymryd 12 wythnos.

Cyngor Astudiaethau Maes – Cronfa Plant

Mae'r gronfa yn cynorthwyo pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig i ddeall yr amgylchedd, trwy eu helpu i fynychu cwrs mewn canolfan astudiaethau maes trwy dalu hyd at 80% o'u ffioedd. Mae tair rownd gyllid bob blwyddyn, ac mae'r dyddiadau cau ar 1 Mawrth, 1 Mehefin a 1 Tachwedd – gallwch wneud cais ar unrhyw adeg a bydd eich cais yn cael ei gadw tan y rownd nesaf.

Ymddiriedolaeth Finnis Scott

Gall Ymddiriedolwyr y Sefydliad ddyfarnu grantiau at unrhyw ddiben elusennol, ond eu polisi presennol yw canolbwyntio ar ddyfarnu grantiau ym meysydd garddwriaeth a

gwyddorau planhigion, yn ogystal â chelf gain a hanes celfyddyd. Mae'r grantiau fel arfer yn amrywio rhwng £500 a £10,000. Gall ymgeiswyr Prydeinig sy'n cyflwyno cais i Longwood Gardens ac sy'n cael eu derbyn ar un o'i raglenni rhyngwladol wneud cais i'r Finnis Scott Foundation am gymorth ariannol gyda chostau teithio i ac o'r Unol Daleithiau. I gael ffurflen gais anfonwch e-bost i: [**administrator@finnis-scott-foundation.org.uk**](mailto:administrator@finnis-scott-foundation.org.uk)

Ford Britain Trust

Mae Ford Britain Trust yn ymroddedig i gefnogi cymunedau lleol y DU. Mae ceisiadau a leolir yn agos i ffatri neu swyddfa Ford yn y DU yn derbyn pwysoliad uwch gan yr ymddiriedolwyr. Mae hyn oherwydd y bydd dyfarniad yn effeithio ar y rhai sy'n byw neu'n gweithio ar bwys ffatri neu swyddfa Ford. Ar gyfer Cymru, mae hyn yn golygu ardal o fewn radiws o 20 milltir i'r cyfleuster ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r ymddiriedolaeth yn rhoi sylw arbennig i brosiectau sy'n canolbwyntio ar addysg, yr amgylchedd, pobl anabl a gweithgareddau ieuencid.

- **Grantiau bach:** hyd at £250 ar gael bedair gwaith y flwyddyn (**Mawrth, Mehefin, Medi a Rhagfyr**)
- **Grantiau mawr:** rhwng £251 a £3,000 ar gael ddwywaith y flwyddyn. Mae'r dyddiadau cau rhwng **1 Medi a 31 Ionawr** i'w hystyried ym mis Mawrth, a rhwng **1 Mawrth a 31 Gorffennaf** i'w hystyried ym mis Medi.

Sefydliad Foyle

Mae'r sefydliad yn ymddiriedolaeth rhoddi grantiau annibynnol sy'n rhoi grantiau i elusennau y DU ar draws tri chynllun; ers 2001 mae wedi rhoi £91.5 miliwn. Mae'r sefydliad yn cefnogi elusennau mewn tri phrif faes: Prif Gynllun Grantiau (**Celfyddydau a Dysgu**), **Cynllun Llyfrgelloedd Ysgolion Foyle** a'r **Cynllun Grantiau Bach** (i elusennau sydd â throsiant o lai na £150,000 y flwyddyn). Ceir gwybodaeth bellach am bob un o'r cynlluniau grantiau hyn ar wefan y sefydliad, sef [**www.foylefoundation.org.uk**](http://www.foylefoundation.org.uk) Nid oes dyddiad cau ar gyfer cyflwyno a gallwn dderbyn ceisiadau drwy'r amser, ond efallai y bydd yn cymryd hyd at bedwar mis i gael penderfyniad gan ymddiriedolwyr. Mae'r gystadleuaeth am gyllid yn frwd.

Ymddiriedolaeth Amaethyddol Frank Parkinson

Prif amcan yr ymddiriedolaeth yw cefnogi'r gwaith o wella amaethyddiaeth ym Mhrydain a'i lles er budd y cyhoedd. Mae'r ymddiriedolwyr wedi datblygu strategaeth flaengar, wedi'i llywio gan gasgliadau ac argymhellion Adroddiad Foresight, *Dyfodol Bwyd a Ffermio*, ac adroddiadau strategol eraill sy'n mynd i'r afael â materion byd eang. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar wella cynhyrchiant amaethyddiaeth Prydain i ddiwallu heriau cysylltiedig â phoblogaeth byd sy'n tyfu a mwy o gystadleuaeth am adnoddau. Rhaid cyflawni hyn mewn partneriaeth â'r boblogaeth ehangach a chymunedau lleol. Mae'r ymddiriedolwyr yn awyddus i annog ceisiadau am gymorth ariannol gyda phrosiectau a rhaglenni sy'n nodi a lledaenu arfer gorau er budd amaethyddiaeth ym Mhrydain. Fodd bynnag, caiff grantiau eu cynnig dim ond pan fo buddion clir yn cael eu mesur ynghyd â manylion ynghylch sut y caiff y rhain eu trosglwyddo a'u cymhwyso i'r diwydiant yn gyffredinol. Yr elfen allweddol yw 'arweinyddiaeth' – am fod yr ymddiriedolwyr yn dymuno gweld canlyniadau cadarn yn cael eu troi'n gamau gweithredu ymarferol cyffredin. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: [**janetpudsey@live.co.uk**](mailto:janetpudsey@live.co.uk)

Sefydliad Freshfield

Mae'r Sefydliad yn rhoi grantiau i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn y DU sy'n cynnal prosiectau ym meysydd datblygu cynaliadwy, lleihau newid yn yr hinsawdd a gwaith i leddfu effeithiau trychineb dramor. Rhoddir cyllid yn ôl disgrisiwn yr Ymddiriedolwyr, ond yn y gorffennol mae grantiau sy'n werth hyd at £500,000 wedi cael eu dyfarnu. Cysylltwch

â Sefydliad Freshfield am ragor o wybodaeth am y grant hwn. E-bostiwch: paul.k@bwm.co.uk

Ymddiriedolaeth Frogna

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig grantiau i sefydliadau elusennol sy'n weithredol yn y DU sy'n cynnal gweithgareddau lles cymdeithasol, amgylcheddol neu gymunedol. Bwriedir i'r grant gefnogi elusennau cofrestredig bach sy'n gweithio mewn meysydd sy'n cynnwys diwylliant a threftadaeth, prosiectau cadwraeth, gwasanaethau cymunedol, parciau, cartrefi hosbis a chartrefi nyrsio ac ymchwil offthalmolegol. Rhoddir cyllid yn ôl disgrisiwn yr Ymddiriedolwyr ac mae'r broses gwneud cais yn mynd rhagddi ac felly gall ymgeiswyr â diddordeb wneud cais unrhyw bryd: sue.hickley@wilsonslaw.com

Sefydliad Gannett

Mae'r Sefydliad yn darparu cyllid i gefnogi sefydliadau lleol yn yr ardaloedd hynny yn y DU lle mae Newsquest yn gweithio. Mae hyn yn bennaf yn y De, ac yn enwedig yng Nghaerffili, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Bro Morgannwg. Fodd bynnag, dylai ymgeiswyr gadarnhau eu cymhwysedd daearyddol ymlaen llaw. Mae'r Sefydliad yn cefnogi prosiectau sy'n mabwysiadu ymagwedd greadigol tuag at faterion sylfaenol megis: addysg a gwelliannau i'r gymdogaeth, datblygu economaidd, datblygiad ieuencid, datrys problemau yn lleol, cymorth i bobl o dan anfantais neu bobl anabl, cadwraeth amgylcheddol a chyfoethogi diwylliannol. Fel arfer dyfernir grantiau rhwng £5,000 a £10,000.

Ymddiriedolaeth Garfield Weston

Mae'r Sefydliad yn gwneuthurwr grantiau cenedlaethol mawr sy'n derbyn ceisiadau gan elusennau ledled y DU ac mae wedi rhoi dros £62 miliwn yn ei flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r Sefydliad yn awyddus i weld cynnydd mewn ceisiadau gan elusennau yng Nghymru. Mae'n derbyn ceisiadau gan fudiadau sy'n gwneud gwaith yn y meysydd canlynol: Ieuencid; Cymuned; Lles; Amgylchedd; Addysg; Celfyddydau; Ffydd; Iechyd; Amgueddfeydd a Threftadaeth. Mae'r Sefydliad yn derbyn ceisiadau am weithgareddau (sy'n cynnwys costau Craidd a phrosiectau) a chostau cyfalaf. Ar gyfer costau craidd a chyfalaf, gallwch wneud cais am hyd at 10% o'r cyfanswm cyllideb. Mae yna ddau ragen; Prif grantiau (o dan £ 100k); a Grantiau Mawr (£ 100k +). I wneud cais mae'n proses ymgeisio syml un cam, y gallwch chi ddod o hyd i'r holl wybodaeth ar sut i wneud cais a pha rai y dylid eu cynnwys yn y cais ar wefan y Sefydliad www.garfieldweston.org. I fod yn llwyddiannus yn eich cais, mae'n ddoeth i chi ddarllen yr holl ganllawiau ar y wefan cyn gwneud cais.

Cronfa Ben-blwydd Sefydliad Garfield Weston

Mewn cronfa arbennig o £5m i ddathlu pen-blwydd Sefydliad Garfield Weston yn 60 oed, mae'r Sefydliad yn rhoi cyfle i fudiadau cymunedol ymgeisio am gyllid ar gyfer prosiectau gyda chostau cyfalaf o rhwng £30,000 a £150,000. Pa un ai yw eich sefydliad angen prynu fan newydd ar gyfer gwaith cymunedol neu adnewyddu eich canolfan gymunedol, byddai'r Sefydliad yn falch o glywed gennych. Mae'r ceisiadau ar agor tan **30 Mehefin 2018**. Cewch ragor o fanylion am gronfa Pen-blwydd Garfield Weston [yma](#).

Ymddiriedolaeth Gaynor Cemlyn-Jones

Grant ar gael i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yng Ngogledd Cymru sy'n ymgymryd â phrosiectau'n ymwneud â gweithgareddau cadwraeth, gwarchod a lles bywyd gwyllt a gweithgareddau addysgol. Mae ariannu ar ddisgrisiwn yr Ymddiriedolwyr. Grantiau blaenorol rhwng £1,000 a £10,000. Dylid gwneud ceisiadau yn ysgrifenedig at:

Gaynor Cemlyn-Jones Trust, 122 Llanrwst Road, Bae Colwyn, Conwy, LL28 5UT neu am wybodaeth bellach e-bostiwrch: colin.wickens@quiltercheviot.com

Ymddiriedolaeth Elusennol Gordon Fraser

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Gordon Fraser yn cefnogi sefydliadau elusennol wedi'u cofrestru gydag OSCR (Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban) neu'r Comisiwn Elusennau. Gwneir dyfarniadau bob chwarter gyda dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno cais ar ddiwedd mis Mawrth, mis Mehefin, mis Medi a mis Rhagfyr i'w hystyried y mis dilynol. Mae grantiau o rhwng £500 – £2,500 ar gael. Dylid gwneud ceisiadau ar-lein yn www.gfct.org.uk. Noder y rhoddir rhywfaint o flaenoriaeth i brosiectau yn neu ar gyfer yr Alban

Sefydliad Graham Kirkham

Mae grantiau ar gael i sefydliadau elusennol sy'n cynnal prosiectau addysg, lles neu gymunedol yn y DU, gan gynnwys diogelu a chadw adeiladau o ddiddordeb pensaernïol sy'n rhan o safleoedd o ddiddordeb hanesyddol neu harddwch naturiol. Dyfernir yr arian yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr. Mae grantiau blaenorol wedi bod yn gyffredinol rhwng £250 a £10,000 gydag un neu ddau o grantiau mwy hyd at £150,000. Mae'r broses ymgeisio yn barhaol a gall ymgeiswyr sydd â diddordeb gyflwyno cais unrhyw bryd. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch 01302 573301.

Sefydliad Greggs – Grantiau Amgylcheddol

Mae'r Rhaglen Grantiau Amgylcheddol yn dyfarnu grantiau o hyd at £2,000 i helpu sefydliadau i wella eu hamgylchedd lleol. Caiff sefydliadau wneud cais unwaith y flwyddyn galendr. Mae gennym ddiddordeb mewn prosiectau a fydd yn gwella'r amgylchedd ffisegol mewn ffordd a fydd yn gwella bywydau pobl. Gall hyn gynnwys prynu offer, costau cyflogau sesiynol, prynu coed/planhigion, prosiectau cyfalaf bach, a gweithgareddau dysgu. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn dulliau newydd a syniadau arloesol yn ogystal â dulliau cynaliadwy ar gyfer cefnogi eich amgylchedd lleol.

Sefydliad Greggs – Cronfa Prosiectau Cymunedau Lleol

Mae'r Gronfa Prosiectau Cymunedol Lleol yn dyfarnu grantiau o hyd at £2,000 i helpu sefydliadau a leolir mewn cymunedau lleol i ddarparu gweithgareddau na fyddent yn gallu eu darparu fel arall. Caiff sefydliadau wneud cais unwaith y flwyddyn galendr.

Ymddiriedolaeth Elusennol HDH Wills 1965

Mae'r ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau i elusennau cofrestredig cyffredinol, amgylcheddol a bywyd gwyllt sydd nail ai wedi cofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr neu'n elusennau eithriedig neu dderbyniedig (yng nghyd-destun Deddf Elusennau 2011). Rhoddir grantiau misol o rhwng £250 a £1,000 i elusennau cyffredinol a'r rhai sy'n ymroddedig i warchod bywyd gwyllt a'r amgylchedd. Mae'r grantiau'n dueddol o fod rhwng £1,000 a £2,000. Mae'n bwysig bod yr elusen neu'r prosiect sy'n gwneud cais yn ddigon bach er mwyn i'r grant gael effaith ystyrlon. Gwneir grantiau ar sail dreigl ac felly nid oes terfynau amser ar gyfer ceisiadau.

Elusen Henry Smith

Mae Elusen Henry Smith yn ymddiriedolaeth gwneud grantiau annibynnol. Mae gan yr elusen ddwy raglen dan ei phrif strategaeth grantiau – Gwella Bywydau a Chryfhau Cymunedau. Mae Gwella Bywydau'n canolbwyntio ar sefydliadau sy'n cyflawni canlyniadau penodol dan feysydd blaenoriaeth a nodwyd yn glir tra bod Cryfhau Cymunedau'n cefnogi sefydliadau bach sy'n gwneud gwaith cymunedol yn ardaloedd

mwyaf difreintiedig y DU. Am ragor o wybodaeth, ewch i'w **gwefan** neu cysylltwch â **020 7264 4970**.

Sefydliad Imagine (IF)

Mae IF yn sefydliad bach, gydag ambell i bartneriaeth gyfredol sydd felly ond a gallu cyfyngedig i ymgymryd â phrosiectau newydd, ac yn ffocysu'n bennaf ar brosiectau a sefydliadau elusennol newydd ar raddfa fach - rheiny sydd llai na 4 mlwydd oed a gydag incwm blynyddol o lai na £200,000. Gydag hyn mewn golwg, os oes gennych brosiect yr hoffech i ni ei ystyried, os gwelwch yn dda rhannwch ychydig o wybodaeth gyda ni am y prosiect, pwy yw'r buddianwyr a'r buddion, ble y clywoch amdanom ni a pham y byddai eich prosiect chi yn ein gweddu. Nid oes ffurflen gais ar gael - ac mae angen y fframwaith eang arnom, yn hytrach na llawer o fanylion, ar gyfer y cam cyntaf, gan y byddwn bob amser yn ymweld â phrosiect yr ydym yn ystyried datblygu partneriaeth â nhw.

Ymddiriedolaeth Elusennol JJ

Caiff Grant Ymddiriedolaeth JJ ei ddarparu a'i weinyddu gan Ymddiriedolaethau Elusennol Teulu Sainsbury ac mae ar gael i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol sy'n weithredol yn y DU. Bwriedir i'r cynllun helpu prosiectau i wella llythrennedd a'r amgylchedd, yn y DU a thramor. Yn arbennig, mae'r cynllun am helpu prosiectau sydd â'r themâu canlynol: Newid cymdeithasol a diwylliannol tuag at ffordd o fyw fwy cynaliadwy - dulliau creadigol sy'n gallu gweld dyfodol cynaliadwy mewn ffyrdd cadarnhaol: Modelau menter ac economaidd arloesol sy'n cefnogi ffyrdd o fyw cynaliadwy a rôl y cyfryngau wrth gyfleu cynaliadwyedd Prosiectau amgylcheddol dramor, yn enwedig mentrau amaethyddol yn y gymuned, sy'n ceisio helpu pobl i'w helpu eu hunain mewn ffordd gynaliadwy yn amgylcheddol.

Ymddiriedolaeth Lles Anifeiliaid Jean Sainsbury

Mae grantiau ar gael i elusennau lles anifeiliaid sydd wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Elusennau i wneud cais am brosiectau neu weithgareddau yn y DU sydd o fudd i anifeiliaid ac yn eu hamddiffyn. Mae grantiau fel arfer rhwng £1,000 a £10,000. Mae'n well gan yr ymddiriedolaeth gael ceisiadau gan elusennau lles anifeiliaid llai o faint. Y dyddiadau cau bob blwyddyn ar gyfer ceisiadau yw **15 Ionawr, 1 Mai ac 1 Medi**. Am ragor o wybodaeth a manylion cyswllt, ewch i **www.jeansainsburyanimalwelfare.org.uk**

Ymddiriedolaeth Elusennol Jephcott

Mae'r Ymddiriedolaeth yn dyfarnu grantiau i elusennau cofrestredig a grwpiau cyfansoddiadol yn y DU. Mae grantiau ar gael er mwyn helpu i sefydlu sefydliadau neu gymryd cam sylweddol ymlaen mewn prosiectau a fydd yn gwneud gwahaniaeth o dan un o bedair prif flaenoriaeth yr Ymddiriedolaeth, sy'n cynnwys yr amgylchedd. Mae grantiau rhwng £2,000 a £10,000 ar gael ar gyfer costau prosiect ac mewn achosion eithriadol, mae rhai sy'n werth hyd at £20,000 ar gael. Dyma raglen dreigl felly gellir gwneud cais ar unrhyw adeg, mae'r ymddiriedolaeth yn awyddus i gefnogi prosiectau sy'n gwarchod yr amgylchedd naturiol. Mae'r ymddiriedolwyr yn cwrdd yn Ebrill a Hydref i ystyried ceisiadau.

Ymddiriedolaeth Elusennol John Coates

Mae grantiau, fel arfer rhwng £1,000 a 10,000, ar gael i elusennau cofrestredig sy'n ymgymryd â gweithgareddau elusennol yn y DU. Dylai grwpiau ysgrifennu at yr Ymddiriedolaeth am wybodaeth bellach am sut i wneud cais: Rebecca Lawes, John Coates Charitable Trust, 3 Grange Road, Cambridge, CB3 9AS neu ffoniwch: 01223301354

Sefydliad John Ellerman

Mae'r Sefydliad yn dyfarnu grantiau mewn tri chategori – y Celfyddydau, Amgylchedd a Lles. Bydd grantiau amgylcheddol yn cyfrif am 25% o'r dyfarniadau. Bwriad y Sefydliad yw cyfrannu at fwy o gytgord rhwng pobl a'r blaned. Ymysg blaenoriaethau amgylcheddol mae rheoli cynefinoedd a gwarchod y moroedd. Bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn ystyried ceisiadau ar gyfer gwaith yn Nhaleithiau Tramor y DU. Mae'r broses ymgeisio'n digwydd mewn dau gam: mae cam un yn gofyn am ddisgrifiad byr o'ch sefydliad, crynodeb ariannol ac anghenion cyllido; os cewch eich gwahodd i gam dau, bydd gofyn gwneud cais llawn. Lleiafswm y grant ar gael yw £10,000; nid oes uchafswm penodol, ond prin y rhoddir grantiau dros £100,000. Bydd Sefydliad John Ellerman wedi cau dros dro ar gyfer ceisiadau newydd tan ddiwedd Gwanwyn 2018, tra bo nhw'n adolygu meini prawf ariannu.

Sefydliad John Spedan Lewis

Mae'r John Spedan Lewis Foundation (JSLF) yn darparu cyllid at ddibenion elusennol gan adlewyrchu diddordebau John Spedan Lewis - sef entomoleg, adareg, garddwriaeth a phrosiectau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a chadwraeth. Mae Ymddiriedolwyr JSLF yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn i ystyried apeliadau am arian gan elusennau sydd wedi'u cofrestru yn y DU. Mae'r JSLF yn derbyn apeliadau gan fudiadau elusennol sy'n nodi pynciau hanes naturiol yn glir ymhlith eu dibenion elusennol, gan gynnwys gwarchod bywyd gwyllt, entomoleg, adareg a garddwriaeth. Mae'r grantiau fel arfer o werth rhwng £1,000 a £6,000. Dylai prosiectau sy'n dymuno ceisio am arian e-bostio'r gronfa am fwy o fanylion - jslf@johnlewis.co.uk

Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree – Dyfodol Cynaliadwy

Mae rhaglen Dyfodol Cynaliadwy Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree yn canolbwyntio ar ddatblygu a hyrwyddo dewisiadau amgen carbon isel cynaliadwy, i'r patrwm defnyddiwr presennol sy'n seiliedig ar dwf. Byddant yn cefnogi amrywiaeth o weithredau i gyflawni'r nodau hyn, gan gydnabod y gallai hyn gynnwys amddiffyn polisïau, fframweithiau a rheoliadau. Fe'ch cynghorir i gysylltu â Maureen Grant, Ysgrifennydd Cynorthwyol yr Ymddiriedolaeth, cyn cwblhau cais.

Sefydliad Lloyds Bank ar gyfer Cymru a Lloegr

Mae Sefydliad Lloyds Bank ar gyfer Cymru a Lloegr yn buddsoddi mewn elusennau sy'n rhoi cymorth i bobl dorri'n rhydd o anfantais ar adegau tyngedfennol yn eu bywydau. Ceir dwy brif raglen grant. Mae grantiau buddsoddi'n darparu cyllid craidd mwy hir dymor neu ddarpariaeth ariannu uniongyrchol i elusennau cymwys sy'n cyflawni canlyniadau clir oherwydd eu gwaith. Ceir grantiau rhwng £10,000 a £25,000 y flwyddyn am gyfnod o ddwy neu dair blynedd. Gwobrwyir grantiau hwyluso ar gyfer elusennau sy'n gallu dangos anghenion datblygu clir. Ceir grantiau hyd at £15,000 y flwyddyn dros gyfnod o flwyddyn neu ddwy flynedd. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â www.lloydsbankfoundation.org.uk

Sefydliad Yr Arglwydd Barnby

Mae'r Sefydliad yn cynnig grantiau o £1,000 i £5,000 i sefydliadau elusennol a sefydliadau crefyddol at ddibenion elusennol cyffredinol, hybu iechyd neu arbed bywydau, anabledd, atal neu leddfu tlodi, anifeiliaid, yr amgylchedd, cadwraeth a threftadaeth. Gellir gwneud ceisiadau am gymorth unrhyw bryd a dylid eu gwneud yn ysgrifenedig i'r Ymddiriedolaeth, ynghyd â disgrifiad byr o'r sefydliad a'r prosiect disgwylidiedig a chopi o gyfrifon mwyaf diweddar y sefydliad. Am ragor o fanylion anfonwch lythyr i The Lord barnaby Foundation, PO Box 442, Market Drayton, Shropshire TF9 9EQ.

Lush Charity Pot

Ariennir Potyn Elusen Lush gan Lush, y gwneuthurwr deunyddiau harddwch ffres, a wnaed â llaw. Bydd 100% o bris prynu'r eli dwylo a chorff (llai treth) yn mynd tuag at gefnogi achosion dyngarol, amgylcheddol a hawliau anifeiliaid yn y DU a ledled y byd. Rhoddir y rhan fwyaf o arian i grwpiau bychain, llawr gwlad, sy'n aml wedi'u lleoli orau i wneud gwahaniaeth go iawn ag adnoddau cyfyng, ac sy'n aml yn cael trafferth dod o hyd i gyllid. Gwerthir y Potyn Elusen mewn dros 30 gwlad ac yn ystod 2015 cododd £5.5 miliwn ar gyfer ymgyrchoedd llawr gwlad, gan gefnogi 1150 o grwpiau ledled y byd. Mae'r gefnogaeth yn amrywio o rhai cannoedd o bunnoedd i uchafswm o £10,000 ar gyfer pob cais. Y grant cyfartalog yw £3-4,000.

Ymddiriedolaeth Marsh Christian

Nod yr Ymddiriedolaeth yw cefnogi elusennau cofrestredig bach trwy ariannu craidd hirdymor, er mwyn ceisio cynorthwyo'r sefydliadau rhain i gynnal gweithgareddau presennol a pharhaol; gan gynnwys achosion amgylcheddol, lles anifeiliaid, treftadaeth, addysg ac iechyd. Mae'r grantiau yn amrywio rhwng £250 a £4,000, gyda cheisiadau newydd ar ben isaf y raddfa. Dymuna'r Ymddiriedolwyr ymhél a chefnogaeth hir dymor, ar ffurf cynnig arian ar sail gylchol flynyddol yn ddibynnol ar ail ymgeisio blynyddol ac adolygiad.

Sefydliad Elusennol Mercers

Prif nod yr Elusen yw dyfarnu grantiau a rhoddion er budd ystod eang o ddibenion elusennol gan gynnwys lles, addysg, y celfyddydau, treftadaeth a chrefydd. Mae cadwraeth bywyd gwyllt/yr amgylchedd yn syrthio i'r categori treftadaeth ac felly caiff cheisiadau eu hystyried ar gyfer diogelu ac ymchwilio i'r canlynol: Rhywogaethau mewn perygl yn y DU; Ffawna a fflora a'u cynefin; Gerddi hanesyddol a mannau agored; a Chadwraeth forol. Ystyrir cheisiadau o fewn y categori Treftadaeth o bob rhan o'r DU.

Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

Mae gan yr Ymddiriedolaeth bedair thema: Chwaraeon, Y Celfyddydau, Y Gymuned a'r Amgylchedd. O dan thema'r Amgylchedd, mae'r Ymddiriedolaeth yn annog cheisiadau'n gysylltiedig ag ailgylchu, datblygu mannau gwyrdd, datblygu a meithrin arferion gwyrdd a hybu'r defnydd o gynlluniau trafndiaeth gyhoeddus. Bydd prosiectau sy'n gwella ansawdd amgylchedd Cymru, yn gwarchod a chreu cefn gwlad fywiog ac yn datblygu a meithrin cynlluniau defnyddio tir cynaliadwy yn cael cefnogaeth yn gyntaf. Nod yr Ymddiriedolaeth yw ariannu rhaglenni sy'n gwarchod a gwella etifeddiaeth naturiol Cymru a meithrin defnydd a mwynhad cynaliadwy ohoni mewn modd sy'n cyfrannu at ffyniant economaidd a chynhwysiant cymdeithasol.

Acwariwm Morol Cenedlaethol

Mae Acwariwm Cenedlaethol Cyf, sef chwaer-elusen i'r Acwariwm Morol Cenedlaethol, yn darparu grantiau bac hi brosiectau diddorol a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'n Cefnforoedd. Gall y prosiectau hyn fod yn seiliedig ar wyddoniaeth, ond gallent yr un mor hawdd fod yn seiliedig ar gelfyddydau neu ddrama - yn wir, po fwyaf blaengar, y gorau, cyhyd â'u bod yn gwneud cyfraniad i godi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd morol. Hyd yn hyn, mae'r grantiau a ddyfarnwyd wedi bod rhwng £1,200 a £5,000 ac mae'n debygol y bydd grantiau'r dyfodol rywbeth yn debyg. Sgrinir cheisiadau gan yr Acwariwm Morol Cenedlaethol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r meini prawf a amlinellwyd yn y canllawiau grant cyn eu pasio gerbron Bwrdd Ymddiriedolwyr i'w hystyried. Cyn y bydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cwrdd, ceir dyddiad cau llym o 3 wythnos cyn cyfarfodydd Ymddiriedolwyr ar gyfer derbyn cheisiadau.

Themâu Blaenoriaeth 2018: Eleni, rydym ni'n edrych yn benodol am brosiectau sy'n cysylltu â Rhithwirionedd a thechnolegau digidol. Rydym hefyd yn ymddiddori mewn derbyn ceisiadau sy'n ymdrechu i gysylltu pobl â chynefinoedd morwellt o gwmpas y byd.
Dyddiad Cau: 1 Mehefin 2018 (hanner nos).

Ni ystyrir unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y Dyddiad Cau ar gyfer Cyfarfod Ymddiriedolwyr penodol tan gyfarfod canlynol y Bwrdd Ymddiriedolwyr. Cyhoeddir hysbysiad o gytundeb i ariannu o fewn pythefnos ar ôl pob Cyfarfod Ymddiriedolwyr. Er mwyn caniatáu ar gyfer gofynion gweinyddu, dylid disgwyl i brosiectau gychwyn nid cyn deufis ar ôl cyfarfodydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n **gwefan** os gwelwch yn dda.

Ymddiriedolaeth Naturesave

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Naturesave yn 1995 i ariannu prosiectau cadwraeth ac amgylcheddol penodol ar draws y DU. Caiff 100% o'i arian oddi wrth breimymau a gynhyrchwyd gan Yswiriant Naturesave Insurance, sy'n defnyddio'r diwydiant yswiriant fel dull dros ddatblygiad cynaliadwy. Prif swyddogaeth yr Ymddiriedolaeth yw annog mabwysiadu mwy o ddatblygiad cynaliadwy yn enwedig o fewn cymunedau busnesau Bach a Chanolig (SME's). Derbynia Ymddiriedolaeth Naturesave geisiadau am ariannu oddi wrth sefydliadau, elusennau a chwmnïau sydd â'u gweithgareddau wedi eu seilio o fewn y DU. Caiff **ceisiadau** eu derbyn ar sail estyn ymlaen a rhoddir grantiau yn ôl pa mor dda mae'r gweithgaredd arfaethedig yn ffitio gydag amcanion a meini prawf yr Ymddiriedolaeth.

Ymddiriedolaeth Naturesave – Grantiau Cymunedol Ynni Adnewyddol

Mae Ymddiriedolaeth Naturesave nawr yn gallu cynnig grantiau 'had yd' i gymunedau sy'n chwilio am ariannu ar gyfer blaengaredd egni cymunedol. Mae'r ymddiriedolaeth yn adnabod y gost drom o ddechrau'r fath brosiectau ac amharoddrwydd benthycwyr traddodiadol i fenthyca arian am brosiectau na fyddant yn mynd heibio'r cam cynllunio. Efallai byddai'r ymddiriedolaeth yn medru helpu'ch prosiect egni cymunedol gydag arian i ymgymryd â'r holl waith rhagarweiniol i'ch arwain i'r cam cynllunio ac yn bwysicach fyth i'r gymuned gadw cymaint o reolaeth ag sydd bosib dros yr incwm gweithredol unwaith bod y prosiect yn llwyddiannus. Os ydych chi wedi gosod neu wrthi'n gosod system ynni adnewyddol gymunedol, mae gan Yswiriant Naturesave **Gynllun Yswiriant Ynni Adnewyddol ar Raddfa Fechan** sy'n cynnig yswiriant fforddiadwy ar gyfer prosiectau solar PV, gwynt neu hydro hyd at 750kw. Os yw eich system dros 750kw, dylech edrych ar dudalen **Yswiriant Ynni Adnewyddol** i gael gwybodaeth am yr yswiriant y gall Naturesave ei ddarparu. Gall y ceisiadau am y ddwy gronfa gael eu gwneud ar-lein. Gall gwybodaeth bellach, canllawiau cais ac esiamplau o brosiectau eisoes wedi eu hariannu cael eu gweld ar wefan **Ymddiriedolaeth Naturesave**.

Ymddiriedolaeth Elusennol NFU Mutual

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Gydfuddiannol yr NFU yn darparu grantiau ar gyfer prosiectau sy'n cael effaith ar gymunedau gwledig y DU. Yn benodol, mae'r ymddiriedolaeth yn cefnogi prosiectau sy'n darparu cymorth i'r rhai sy'n dioddef caledi yn y gymuned wledig, ac yn enwedig y rhai sy'n dod o gefndir amaethyddol. Mae hefyd yn cefnogi prosiectau sy'n addysgu'r cyhoedd, yn enwedig pobl ifanc, am y diwydiant amaethyddol, a phrosiectau sy'n hyrwyddo addysg pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig. Amcanion Ymddiriedolaeth Elusennol NFU Mutual yw hyrwyddo, hwyluso a chefnogi dibenion o'r fath sy'n gwbl elusennol, yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr, ym meysydd amaeth, datblygu gwledig ac yswiriant yn y Deyrnas Unedig, ac yn benodol, i

- Ddatblygu addysg y cyhoedd trwy waith ymchwil a lledaenu gwybodaeth o ran amaethyddiaeth
- Datblygu addysg pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig
- Lleihau tlodi mewn ardaloedd gwledig
- Hyrwyddo budd a lles cymdeithasol trigolion cymunedau gwledig trwy gysylltu'r trigolion ag awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol a sefydliadau eraill i ddatblygu addysg a hamdden
- Hyrwyddo ymchwil i mewn i weithgareddau sy'n gysylltiedig ag amaeth
- Datblygu addysg y cyhoedd trwy waith ymchwil a lledaenu gwybodaeth am yswiriant

Mae rhoddion yn amrywio o £1,000 i £50,000. Fodd bynnag, mae cyllid yr ymddiriedolwyr yn gyfyngedig, felly defnyddir y rhoddion mwy i gefnogi sefydliadau sy'n cael effaith sylweddol ar gymunedau gwledig ar lefel genedlaethol. Dyddiad cau: **26 Hydref 2018**. Ceir rhagor o fanylion yma neu drwy e-bostio nfu_mutual_charitable_trust@nfumutual.co.uk

Ymddiriedolaeth Elusennol Nineveh

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Nineveh (RCN 256025, cofrestredig 1968) yn cefnogi amrediad eang o brosiectau a gweithgareddau yn y DU sydd o fudd i'r cyhoedd, gyda phwyslais ar hyrwyddo dealltwriaeth well o'r amgylchedd a'r cefn gwlad, wrth hwyluso gwell mynediad, addysg ac ymchwil. Mae'n well gan yr ymddiriedolaeth ddyfarnu grantiau i elusennau cofrestredig a chwmnïau buddiant cymunedol y DU, ond gellir ystyried ymgeiswyr unigol os yw'r buddion canlyniadol wedi'u diffinio'n glir.

Ymddiriedolaeth Oakdale

Mae'r Ymddiriedolaeth hon yn sefydliad bach teuluol sy'n dosbarthu grantiau gwerth £250,000 bob blwyddyn. Mae grantiau'n amrywio o £250 i £2000 gyda chyfartaledd o tua £750. Mae ei feysydd o ddiddordeb yn cynnwys prosiectau cymdeithasol a chymunedol yng Nghymru a phrosiectau cadwraeth yr amgylchedd yng Nghymru. Gellir cyflwyno ceisiadau drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein (y ffordd a ffafriwr) neu drwy'r post. Nid yw'r ymddiriedolwyr yn derbyn ceisiadau trwy e-bost. Bydd yr ymddiriedolwyr yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn - ym mis Ebrill a mis Hydref i ystyried ceisiadau ac i ddyfarnu grantiau. Cynhelir cyfarfod nesaf yr ymddiriedolwyr ym mis **Hydref 2018**. **Cyhoeddir dyddiad cau derbyn ceisiadau maes o law.**

Ymddiriedolaeth Elusennol Oakley

Mae grantiau bach ar gael ar gyfer elusennau cofrestredig y DU, Guernsey a Jersey er mwyn cynnal gweithgareddau elusennol cyffredinol. Dyfernir yr arian yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr a gellir cyflwyno ceisiadau ar unrhyw adeg. Mae grantiau blaenorol wedi bod rhwng £50 a £2,000. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch 0121 427 7150 a dylid anfon ceisiadau ysgrifenedig at Mr G Oakley, The Oakley Charitable Trust, 10 St Mary's Rd, Harborne, Birmingham, B17 0HA.

Sefydliad Ove Arup

Elusen annibynnol yw Sefydliad Ove Arup, wedi ei sefydlu yn 1989 er cof am Syr Ove Arup, y peiriannydd, cynllunydd ac athronydd. Roedd Ove yn credu mewn cymhwysu dull cyfannol i gynllunio mewn peirianeg a phensaernïaeth - mae'r gronfa hon yn ymroddedig i hyrwyddo meddwl newydd mewn addysg a meithrin peirianeg o'r amgylchedd sydd eisoes wedi ei adeiladu. Mae'r Sefydliad yn croesawu ceisiadau ar sail estyn ymlaen, am brosiectau sy'n dymuno hyrwyddo meddwl newydd a mentrau o fewn addysg ôl-raddedig ac israddedig mewn maes amlddisgyblaethol - yr amgylchedd wedi ei adeiladu.

Ymddiriedolaeth Elusennol P & C Hickinbotham

Mae grantiau rhwng £250 i £1000 ar gael i fudiadau elusennol yng ngogledd Cymru sy'n ymgymryd â gweithgareddau elusennol cyffredinol mewn meysydd sy'n cynnwys (ymhlith eraill) anabled, amddifadedd cymdeithasol, digartrefedd, prosiectau diwylliannol, a'r amgylchedd. I gael rhagor o wybodaeth ynghŷn â sut i gael y grant hwn, anfonwch e-bost at roger@hickinbothamtrust.org.uk

Rhaglen Grantiau Amgylcheddol Patagonia

Mae Patagonia yn gwmni dillad ac offer awyr agored preifat Americanaidd sydd wedi'i leoli yn yr Unol Daleithiau ac sy'n gweithredu'n rhyngwladol mewn nifer o wledydd gwahanol, gan gynnwys y DU. Mae'n cynnig grantiau i grwpiau amgylcheddol dielw ar lawr gwlad yn y gwledydd y mae'n gweithio ynddynt. Dim ond gwaith amgylcheddol a ariennir gan Patagonia. Ei ddiddordeb pennaf yw dyfarnu grantiau i sefydliadau sy'n nodi ac yn gweithio ar achosion sylfaenol problemau amgylcheddol ac sy'n mynd i'r afael â materion gydag ymrwymiad i newid hirdymor. Mae dwy brif rownd gyllid bob blwyddyn ar gyfer grantiau o hyd at \$12,000 USD, gyda dyddiadau cau ar ddiwedd mis Ebrill a mis Awst. Ni fydd yn ariannu cynadleddau neu brosiectau adeiladu gwyrdd. Ni chaiff sefydliadau gyflwyno ond un cais bob blwyddyn ariannol.

Sir Benfro – Cronfa Gymunedol South Hook LNG

Sefydlwyd Cronfa Gymunedol South Hook LNG yn 2015 mewn partneriaeth â Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) i gynnig cymorth ariannol â chostau prosiectau cymunedol, mentrau a chyfleoedd gwirfoddoli ledled Sir Benfro. Nod Cronfa Gymunedol South Hook LNG yw cefnogi prosiectau a mentrau sy'n:

- Cefnogi cymunedau yn Sir Benfro
- Cefnogi diogelwch, yr amgylchedd, addysg a lles
- Yn cynnig budd cynaliadwy hirdymor i'r gymuned
- Annog gwirfoddoli cymunedol
- Annog staff i gymryd rhan mewn datblygiad cymunedau lleol

Mae dwy lefel o gyllid ar gael; mae haen un hyd at gyfanswm o £500 a haen dau hyd at gyfanswm o £5,000. Derbynnir ceisiadau ar gyfer haen un ar unrhyw adeg. Dyma'r dyddiadau cau: **27 Gorffennaf ac 19 Hydref 2018.**

Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen Y Cymoedd

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd – sy'n werth £1.8 miliwn y flwyddyn – wedi cael ei sefydlu er lles llw o gymunedau yng nghyfraeddiadau uchaf Cwm Nedd, Cwm Afan, Cwm Rhondda a Chwm Cynon. Mae'r blaenoriaethau buddsoddi – fel y'u hamlinellir yn y prosiectws ar ein gwefan – wedi cael eu diffinio gan y preswylwyr a'r cymunedau eu hunain. Mae dwy ffrwd Cyllid Cymunedol – bydd y ddwy yn rhedeg am yr 20 mlynedd nesaf:

- Mae'r GRONFA FEICRO yn cynnig grantiau un tro rhwng £500 a £5,000 i gefnogi agweddau pwysig ar fywyd y gymuned ac i gefnogi datblygiad mentergarwch. Mae dwy rownd ymgeisio bob blwyddyn – bydd yr un nesaf yn agor ar ddechrau mis Rhagfyr.
- Mae'r GRONFA WELEDIGAETH yn cynnig grantiau mwy ar gyfer gweithgareddau sy'n helpu i gyflenwi un neu fwy o'r blaenoriaethau a amlinellir yn y prosiectws. Rydym yn chwilio am gynigion sydd â'r potensial i wneud gwahaniaeth gwirioneddol a hirdymor i fywydau pobl a chymunedau.

Rydym yn annog ymgeiswyr i siarad â ni cyn dechrau ysgrifennu – ffoniwch ni ar 01685 878785 neu e-bostiwch ni yn enquiries@penycymoeddcic.cymru

Rhaglenni Cymunedol a gefnogir gan Chwaraewyr Ymddiriedolaeth Cod Post (People's Postcode)

Mae Ymddiriedolaeth Rhaglenni Cymunedol yn gofyn am geisiadau am gyllid a seilir ar brosiectau oddi wrth gymdeithasau ac elusennau sy'n gefnogol i'r prosiectau hynny sydd o bwysigrwydd lleol i ardaloedd ar draws Prydain. Ceir tair ymddiriedolaeth neilltuol sy'n barod i dderbyn ceisiadau ar gyfnodau penodol trwy gydol y flwyddyn:

- Mae Ymddiriedolaeth Cod Post y Bobl yn gwahodd ceisiadau ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio ar atal tlodi, hyrwyddo hawliau dynol, hawliau cyfartal a datrys gwrthdaro
- Bydd Ymddiriedolaeth Cod Post Lleol yn cefnogi cadwraeth, mentrau cynaliadwyedd, ynni gwyrdd, meysydd chwarae ac ardaloedd awyr agored.
- Bydd Ymddiriedolaeth Cod Post Cymunedol yn canolbwyntio ar chwaraeon gwerin gwlad, rhaglenni celfyddydol a hamdden a chynlluniau byw'n iach sy'n gwella iechyd meddwl a / neu gorfforol a llesiant cymuned.

Gall ymgeiswyr wneud cais am symiau rhwng £500-£20,000 (£10,000 yng Nghymru) - dim ond os ydynt yn elusen gofrestredig y gallant wneud cais am fwy na £2,000. Rhaid i bob sefydliad gael cyfansoddiad a chyfrif banc yn union enw'r grŵp/sefydliad. Caiff cyhoeddiadau ynglŷn â rhaglen gyllido 2018 eu gwneud ar lein. Cynghorir ymgeiswyr i dalu sylw manwl i'r canllaw cyllido sydd ar gael ar y wefan.

Ymddiriedolaeth y Bobl ar gyfer Rhywogaethau Mewn Perygl

Mae Ymddiriedolaeth y Bobl ar gyfer Rhywogaethau Mewn Perygl yn croesawu ceisiadau oddi wrth gymdeithasau cadwraethol gwirfoddol am gefnogaeth ariannol ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â chadwraeth mamaliaid. Mae meysydd gwaith derbynol ar gyfer ariannu yn cynnwys ymchwil wyddonol, gwaith ymarferol rheoli cynefinoedd, rhaglenni ail-sefydlu a monitro a phrosiectau addysgol. Mae tair ffordd wahanol o ariannu ar gael: Grant mamaliaid y DU, Meini prawf byd-eang a Meini prawf interniaeth. Tua £15,000 yw'r grantiau cyfartalog ar gyfer bob prosiect. **Mis Hydref 2018** fydd terfyn amser y ceisiadau nesaf ar gyfer grant mamaliaid y DU a bydd y ceisiadau'n cael eu hystyried mewn cyfarfod ym **mis Rhagfyr 2018**. Mae'r grant Interniaeth bellach ar agor i ymgeiswyr. Mae cyllid hyd at £5,000 ar gael i gefnogi cadwraethwr dan hyfforddiant yn gweithio ar brosiect penodol am hyd at 18 mis – mae'r arian ar gyfer costau'r prosiect, costau byw ac yswiriant.

Pencampwyr Cymunedol Persimmon

Mae tai Persimmon yn cynnig grantiau ar gyfer grwpiau cymunedol hyd at £1,000. Gwnaed rhoddion yn y gorffennol ar gyfer gweithgareddau megis banc bwyd a gardd ysgol. Lanswyd y gronfa ym mis Mawrth 2015 ac mae bellach wedi rhoi dros £2 miliwn i rwpiau lleol ac elusennau ar draws Prydain. Bydd grwpiau'n gwneud cais am arian ar y ffurflen gais ar lein, gan roi manylion ynglŷn â'r arian a godwyd eisoes, a faint yr hoffech chi ei dderbyn gan y cynllun pencampwyr cymunedol. Mae cynllun Pencampwyr Cymunedol Persimmon ar agor i dderbyn ceisiadau'n barhaol.

Ymddiriedolaeth Elusennol PF

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth yn 1951 gan y bancwr Philip Fleming. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi ystod eang o weithgareddau, yn cynnwys datblygiad o amddiffyniad amgylcheddol a gwelliant. Mae elusennau sy'n gofrestredig yn y DU yn gymwys i wneud cais. Gall ymholiadau cyffredinol eu gwneud drwy ffonio 020 3696 6721 ac mae ceisiadau i'w gwneud drwy'r post. Mae'r Ymddiriedolwyr fel arfer yn cyfarfod yn fisol i adolygu ceisiadau newydd ac i wobrwyo grantiau.

Ymddiriedolaeth Elusennol Peter Samuel

Mae'r grant ymddiriedolaeth yma ar gyfer y sector gwirfoddol a sefydliadau cymunedol sydd yn ymgymryd â phrosiectau i wella ansawdd bywyd a'r amgylchedd yn y DU. Ardaloedd o ddiddordeb penodol yw treftadaeth, coedwigoedd ac adferiad tir. Mae'r terfyn grant yn ddewisol. Anfonwch e-bost at kate@farleyfarms.co.uk gydag unrhyw ymholiad

Sefydliad Plunkett

Mae'r Sefydliad yn rhoi cymorth penodedig i gymunedau gwledig yn bennaf sy'n ystyried sefydlu a rhedeg amrywiaeth o gwmnïau cydweithredol sy'n eiddo i'r gymuned. Mae'n darparu cymorth dros y ffôn ac mae ganddo rwydwaith o ymgynghorwyr, mentoriaid ac arbenigwyr ledled y DU. Mae hefyd yn darparu amrywiaeth o becynnau cymorth, adnoddau a gwybodaeth sydd ar gael ar-lein er mwyn cynorthwyo cymunedau, ni waeth lle maent wedi'u lleoli, trwy bob cam o'r broses. Weithiau mae ganddo gyllideb ar gael ar gyfer cymunedau hefyd. Gellir cysylltu â'r sefydliad unrhyw bryd i drafod a ydych chi'n gymwys.

Ymddiriedolaeth Elusennol Polden Puckham

Mae Sefydliad Elusennol Polden Puckham yn ymddiriedolaeth sy'n rhoi grantiau â'i wreiddiau mewn teulu o Grynwyr. Mae'n ariannu sefydliadau yn y DU sy'n gweithio ar ddylanwadu ar bolisiau, agweddau a gwerthoedd ar lefel cenedlaethol neu ryngwladol, gan gynnwys gwaith sy'n cyfeirio at y pwysau a'r amgylchiadau sy'n creu perygl o fethiant amgylcheddol byd-eang. Mae'r Sefydliad yn rhoi ystyriaeth arbennig i gyrff pencadlys arloesol bychain. Mae'r grantiau rhwng £5,000 a £15,000 y flwyddyn am hyd at dair blynedd, fel arfer, ac mae'r grant yn cefnogi cyrff ble byddai 'r swm yma'n cynrychioli rhwng 3% a 50% o'u hincwm blyneddol (sefydliadau gydag incwm blyneddol o rhwng tua £10,000 a £500,000). Bydd y Cyfarwyddwyr fel arfer yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, yn y gwanwyn a'r hydref.

Cronfa Gymunedol Porthladd Aberdaugleddau

Mae cronfa Porth Cymunedol Aberdaugleddau yn cynnig cefnogaeth ariannol i elusennau, sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau cymunedol a mentrau cymdeithasol sydd yn gweithio o fewn Sir Benfro. Drwy'r gronfa yma, mae'r Porth yn awyddus iawn i noddi prosiectau a digwyddiadau sydd â'u fwriadau o gynnal diogelwch ar y ddyfrffordd; yn gwarchod yr amgylchedd a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, yn ogystal â phrosiectau a digwyddiadau sy'n cefnogi amcanion a gwerthoedd y Porth. Gellir cyflwyno ceisiadau i'r Gronfa Gymunedol trwy ffurflen gais ar-lein – <https://www.mhpa.co.uk/community-fund/>

Ymddiriedolaeth Rhododendron

Mae'r Ymddiriedolaeth Rhododendron yn ymddiriedolaeth elusennol deuluol fach sy'n rhoi grantiau i elusennau cofrestredig yn y DU. Diben yr arian yw cefnogi prosiectau lles cymdeithasol a chymorth dyngarol yn y byd datblygol a'r DU. Mae hefyd yn cefnogi rhai prosiectau diwylliannol a bywyd gwyllt. Mae fel arfer yn rhoi blaenoriaeth i elusennau bach yn hytrach na rhai mwy. Mae gan yr ymddiriedolaeth gyllideb flynyddol o ryw £50,000 ar gyfer grantiau. Mae grantiau ar gyfer £500 neu £1,000 ar gael. Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw bryd a byddant yn cael eu hystyried unwaith y flwyddyn (fel arfer ym mis Chwefror neu fis Mawrth). **Cliciwch fan yma i gael manylion cyswllt**

Rhoddion Rockwool, Pencoed

Gwahoddir grwpiau elusennol a dielw i wneud cais am roddion a nawdd gan Rockwool. Rhoddir blaenoriaeth i grwpiau sydd o fewn 8 milltir i Ffatri Rockwool, Pencoed, de Cymru. Hoffai Rockwool sicrhau bod yr holl brosiectau sy'n derbyn cyllid yn darparu manteision

gwirioneddol i'r gymuned, gyda sylw penodol ar yr Amgylchedd, Tai, Iechyd a Llesiant. Am ragor o wybodaeth, ebstiwch community@rockwool.com

Grantiau Discovery Santander

Mae cynllun y Grantiau Darganfyddiad yn cael ei ddarparu gan Sefydliad Santander. Mae'r Grant Darganfod yn cyfuno'r hen gynlluniau grant 'Y Gymuned a Mwy', 'Dysgu a Thyfu' a 'Sgiliau Ariannol' i un rhaglen gyllido newydd. Gall elusennau cofrestredig y DU, Cwmnïau Buddiannau Cymunedol ac Undebau Credyd gyda phrosiectau lleol sy'n gwella sgiliau wneud cais am grant am hyd at £5,000. **Derbynnir ceisiadau ar unrhyw adeg.**

Rhaglen Cronfa Gymunedol Sainsbury's yng Nghymru

Mae grantiau ar gael i grwpiau cymunedol, elusennau cofrestredig, mentrau cymdeithasol a grwpiau dielw eraill yng Nghymru ar gyfer prosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sy'n unol â gwerthoedd Sainsbury, sef bwyd, teulu, plant ac iechyd. Uchafswm y grant sydd ar gael yw £500. Mae'r arian ar gyfer prosiectau, gwasanaethau, gweithgareddau neu offer gan gynnwys ar gyfer parciau bywyd gwyllt, prosiectau cadwraeth, gweithgareddau glanhau ac ati. Rhedir y prosiect bellach drwy [**siopau Sainsbury's**](#). Dylai grwpiau sy'n dymuno cyflwyno cais fynd at eu siop leol i gael manylion.

Rhaglen Grant Sea-Changers

Mae Sea-Changers yn rhoi grantiau unwaith ac am byth i ystod o elusennau cadwraeth morol a sefydliadau 'nid er elw' yn y DU. Bydd y prosiectau a ariennir yn cyflawni un neu ragor o'r amcanion canlynol:

- Mynd i'r afael â'r materion sydd wrth wraidd bygythiadau a heriau cadwraeth morol yn y DU.
- Atal neu leihau effeithiau negyddol ar amgylcheddau a / neu rywogaethau arfordirol a morol y DU.
- Ychwanegu at y corff o wybodaeth am fygythiadau a heriau cadwraeth morol yn y DU.

Mae grantiau unwaith ac am byth o hyd at £600, a mewn achosion arbennig, hyd at £1,000, ar gael i elusennau a sefydliadau cadwraeth morol ar gyfer prosiectau yn y DU. Mae Sea-Changers yn dyrannu grantiau yn chwe misol . Dyddiad cau ar gyfer y ceisiadau nesaf yw **30 Medi 2018**. Mae gan Sea-Changers **Gronfa Grantiau Sbwriel Morol** hefyd yn **2018** a gellir cael gwybodaeth am hyn ar eu tudalen [**yma**](#).

Ymddiriedolaeth SMB

Nod yr Ymddiriedolaeth yw bod o fudd i'r rhai mewn angen, yn ysbrydol, yn gorfforol neu'n feddyliol, trwy ddosbarthu incwm ledled y byd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig cyllid i elusennau sydd wedi'u cofrestru yn y DU sy'n cefnogi'r ffydd Gristnogol, gofal cymdeithasol, cymorth newyn a chymorth brys, yr amgylchedd, addysg, ac ymchwil feddygol. Fel arfer, mae'r cyllid tua £1,200, er y gall hyn amrywio. Gellir gwneud cais ar unrhyw adeg a rhaid iddo fod yn ysgrifenedig. Cewch ragor o wybodaeth am y cyllid trwy gysylltu â: [**smbcharitabletrust@googlemail.com**](mailto:smbcharitabletrust@googlemail.com)

Ymddiriedolaeth Arddwriaethol Stanley Smith

Mae grantiau ar gael i gefnogi addysg arddwriaethol; i hybu ymchwil i arddwriaeth mewn unrhyw gangen o arddwriaeth, a chyhoeddi'r canlyniadau o ymchwil o'r fath; i gynorthwyo gyda'r gwaith o greu, datblygu, gwarchod a chynnal a chadw gerddi cyhoeddus; i hybu amaethiad a dosbarthiad eang o blanhigion sy'n werthfawr i ddynolryw; i hybu ac amaethu planhigion newydd; ac i gynorthwyo gyda'r gwaith o gyhoeddi llyfrau neu weithiau eraill sy'n ymwneud â gwyddoniaeth neu arddwriaeth. Mae grantiau ar gael ar gyfer prosiectau sydd o bwys i arddwriaeth, garddio neu fotaneg gydag elfen arddwriaeth gref. Mae'n

bwysig bod y prosiect yn canolbwyntio ar arddwriaeth ac nad yw garddwriaeth yn cael ei weld fel rhyw ychwanegiad i brosiect a gynigwyd eisoes.

Mae prosiectau nodweddiadol fel a ganlyn:

- Cynlluniau hyfforddi garddwyr a redir gan sefydliadau priodol (ond nid ar gyfer unigolion)
- Adfer gerddi sydd o ddiddordeb hanesyddol
- Datblygu gerddi newydd ar gyfer mynediad a mwynhad y cyhoedd
- Arddangosfeydd, cyhoeddi llyfrau, ymchwil a rhaglenni addysgol sy'n ymwneud garddwriaeth
- Alldeithiau i gasglu ac amddiffyn planhigion sydd o werth gwyddonol ac arddwrol
- Ymweliadau astudio gan arddwriaethwyr neu fotanegwyr gyda chysylltiadau garddwriaethol cryf.

Dylid cyflwyno ceisiadau ymhell cyn y dyddiad cau, sef 15 Chwefror a 15 Awst bob blwyddyn.

Grantiau Bags of Help Tesco

Gall grwpiau cymunedol, ysgolion, elusennau a sefydliadau ledled Cymru wneud cais am grant misol o hyd at £4,000 i wella manau lleol, adeiladau a chyfleusterau. Bydd cydweithwyr o Groundwork a Tesco yn dewis tri phrosiect i'w rhoi ar restr fer i gael £1,000, £2,000 neu £4,000 o gyllid bob mis. Yna, bydd cwsmeriaid Tesco'n pleidleisio yn y siop ar dri phrosiect bob deufis i benderfynu pa swm fyddan nhw'n eu cael. Nid oes unrhyw ddyddiad cau ar gyfer y ceisiadau ar-lein a gellir eu cyflwyno ar unrhyw adeg. I drafod syniad am brosiect neu i gael rhagor o help, cysylltwch â:

- Gogledd a Chanolbarth, Geraint Hughes, Galluogwr Cymunedol, Groundwork Cymru ffôn: 01978 757 524
- De-ddwyrain, Julian Devereux, Galluogwr Cymunedol, Groundwork Cymru ffôn: 01495 222605
- De-orllewin, Ian Dennis, Galluogwr Cymunedol, Groundwork Cymru ffôn: 01495 222605

Sefydliad Elusennol Trusthouse

Mae Trusthouse yn sefydliad canolig ei faint sy'n rhoi grantiau i sefydliadau bach yn y DU sydd wedi sefydlu ers peth ac sy'n mynd i'r afael â phroblemau lleol mewn ardaloedd o amddifadedd trefol eithafol, neu mewn cymunedau gwledig anghysbell a bregus. Mae Trusthouse yn rhoi grantiau ar gyfer costau rhedeg neu gostau cyfalaf unwaith ac am byth i elusennau a sefydliadau nid-er-elw yn unol â meini prawf sy'n cael eu hadolygu a'u penderfynu'n rheolaidd gan yr Ymddiriedolwyr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar eu gwefan [yma](http://www.yma.org.uk)

Ymddiriedolaeth Tudor

Mae'r Ymddiriedolaeth hon yn un annibynnol sy'n rhoi grantiau i helpu grwpiau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithio mewn unrhyw ran o'r DU. Mae'r Ymddiriedolaeth am helpu grwpiau llai, dan arweiniad y gymuned sy'n helpu pobl ar ymylon cymdeithas. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw raglenni ariannu penodol, ac mae'n well ganddi fod y grwpiau y mae'n eu helpu yn arwain yr agenda. Mae'n fwy tebygol o ariannu grwpiau sydd â throsiant blynyddol o lai nag £1 miliwn, er y gellir dyfarnu grantiau i grwpiau mwy, yn enwedig ar gyfer gwaith a allai fod yn ddylanwadol, neu waith na fyddai gan sefydliad llai'r capasiti i'w gyflawni. Mae hon yn broses gwneud cais mewn dau gam.

Community Matters Waitrose

Lansiwyd cynllun blaengar Waitrose, *Community Matters*, yn 2008, sy'n golygu ein bod yn dathlu ein pen-blwydd yn 10 oed eleni. Gwnaethom ddatganoli penderfyniadau i lefel leol, gan roi'r cyfle i'n cwsmeriaid enwebu achosion lleol o bwys iddynt ac i'n partneriaid (cyflogeion) benderfynu ar y tair elusen leol/tri achos da lleol (nid er elw) i'w cefnogi bob mis trwy gyrrff democrataidd Waitrose ym mhob siop leol. Yn 2012, cafodd Waitrose ei gydnabod am y cynllun *Community Matters*, ac fe'i cyflwynwyd â Gwobr y Gymdeithas Fawr gan y Prif Weinidog ar y pryd, David Cameron. Mae'r cynllun hwn yn galluogi cwsmeriaid i fwrw pleidlais â'u tocyn gwyrdd a chaiff cyfran o £1,000 (neu £500 mewn siopau cyfleuster) ei rhannu'n gymesur â phleidlais y cwsmeriaid. Ers lansio'r cynllun, mae Waitrose wedi rhoi mwy na £30 miliwn o elw i gefnogi mwy na 90,000 o achosion elusennol lleol. Yn 2011, lansiodd Waitrose fersiwn ar-lein i gefnogi elusennau cenedlaethol. Bob tri mis, caiff tair elusen genedlaethol eu dangos a chaiff cyfran o £25,000 ei rhannu'n gymesur â nifer y pleidleisiau gan siopwyr ar-lein. Croesewir ceisiadau gan elusennau cenedlaethol ar gyfer y cynllun ar lein hwn.

Ymddiriedolaeth Wakeham

Rhedir Ymddiriedolaeth Wakeham gan wirfoddolwyr. Mae'n hoffi helpu grwpiau gweithredu cymunedol blaengar sy'n rhy fach, yn rhy ddadleuol neu'n rhy newydd i gael cyllid gan elusennau o'r brif ffrwd. Nid yw fel arfer yn helpu prosiectau ble bydd staff yn derbyn cyflog na'n helpu gyda phrynu cerbydau na gwella neu brynu adeiladau. Fel arfer, mae'n rhoi grantiau bach iawn oddeutu £100 i £500. Mae ganddo ddiddordeb arbennig mewn gwirfoddolwyr sy'n dod ynghyd i helpu eraill. Nid yw'n cefnogi myfyrwyr blwyddyn bwch nac yn rhoi ysgoloriaethau, er ei fod wedi rhoi grantiau i sefydliadau addysgol yn achlysurol, i gynorthwyo â rhaglenni ysgoloriaeth. Y ffordd orau o gyflwyno cais yw ar lein.

Sefydliad Waterloo

Prosiectau sy'n helpu yn fyd-eang, yn enwedig ym meysydd anghyfartaledd cyfleoedd a chyfoeth a'r defnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol y byd y mae gan y Sefydliad annibynnol hwn sy'n rhoi grantiau y diddordeb pennaf ynddynt. Mae'n blaenoriaethau ariannu ar gyfer elusennau wedi eu seilio yn y DU, nifer ohonyn nhw sydd yn gweithio mewn partneriaeth glos gydag NGO's lleol llai o faint sydd wedi eu seilio yn y gwledydd ble maent yn gweithredu.

Mae gan y gronfa Amgylchedd ddwy brif thema:

- Morol - cefnogi prosiectau sydd yn gweithio tuag at roi stop i stociau pysgod sydd yn dirywio.
- Fforestydd Trofannol - cefnogaeth ar gyfer prosiectau sydd yn gwarchod fforestydd trofannol, yn bennaf drwy osgoi datgoedwigo.

Mae dau ddyddiad cau ar gyfer pob thema bob blwyddyn. Gall grantiau unigryw neu grantiau aml-flwyddyn eu gwobrwyo, y mwyafrif a fydd yn gyfanswm o £50,000 - £100,000. Ni yw'r gronfa yn cefnogi prosiectau sydd yn ffocysu ar addysg amgylcheddol neu'r rheiny gyda chadwraeth anifeiliaid fel eu hunig ffocws.

Cronfa Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Cymru (WFD)

Mae Dŵr Cymru wedi bod yn cynnig cyllid (oddeutu £100 mil y flwyddyn) i gefnogi sefydliadau dielw sydd eisiau gwneud prosiectau a fydd yn helpu i weithredu Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) yr Undeb Ewropeaidd o fewn ein hardal gyflenwi ers 2012. Ni yw'r unig gwmni dŵr yn y DU sy'n gweithredu cynllun o'r fath.

Prif nod y gronfa hon yw dangos, mewn modd ymarferol, pa mor gost effeithiol a buddiol y gall gwelliannau arloesol a chyd-gyllidol fod o ran bodloni gofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, trwy:

- Gefnogi prosiectau 'ar dir' ac 'yn y dŵr' sy'n gwella ecoleg yr amgylchedd ddŵr.
- Targedu cyrff dŵr neu ardaloedd a warchodir sy'n methu â chyflawni amcanion o dan yr WFD.

Mae Dŵr Cymru wedi ariannu 13 o brosiectau hyd yma. I gael rhagor o wybodaeth am Gronfa WFD Dŵr Cymru, cysylltwch ag wfd@dwrcymru.com

Sefydliad Wilfrid a Constance Cave

Mae Sefydliad Wilfrid a Constance Cave yn rhoi grantiau i gefnogi mudiadau elusennol sy'n gweithio ym meysydd iechyd, lles, cadwraeth a lles anifeiliaid. Mae grantiau'n dueddol o amrywio o £1,000 i £7,000 gyda nifer o grantiau llawer mwy wedi'u dyfarnu mewn amgylchiadau eithriadol. Dylid anfon ceisiadau ysgrifenedig. Mae enwebiadau am grantiau'n cael eu denu gan yr ymddiriedolwyr yn unigol sydd wedyn yn cyflwyno cynigion ar gyfer dyfarnu rhoddion yn flynyddol. Am ragor o wybodaeth ynghlŷn â sut i gael y grant hwn yn lleol, cysylltwch â tcf@eamo.co.uk

Sefydliad Woodroffe Benton

Mae Sefydliad Woodroffe Benton yn sefydliad annibynnol sy'n rhoi grantiau. Mae grantiau bach rhwng £250 a £2,500 ar gael mewn pedwar categori, ac un ohonynt yw 'Cadw/Gwarchod/Amddiffyn/Gwelliant – yn enwedig ble byddai hyn yn annog darpariaeth mynediad i aelodau o'r cyhoedd. Mae elusennau cofrestredig a sefydliadau addysgiadol yn gymwys i wneud cais. Dim ond yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr yn Ionawr, Ebrill, Gorffennaf a Hydref yr ystyrir ceisiadau.

Gwobrau World Habitat

Rydym wedi newid o'r Sefydliad Adeiladu a Thai Cymdeithasol (BSHF) a bellach yn cael ein galw'n World Habitat. Credwn fod gan bawb ym mhobman yr hawl sylfaenol i gartref diogel. Rydym am wneud tai, nid yn fuddsoddiad, nac yn freuddwyd, ond yn hawl sylfaenol i bawb. Mae ein Gwobrau - wedi'u trefnu mewn partneriaeth â UN Habitat - yn cydnabod ac yn tynnu sylw at syniadau, prosiectau a rhaglenni arloesol, rhagorol ac weithiau chwyldroadol o bob cwr o'r byd. Bob blwyddyn, mae dau enillydd yn derbyn £10,000 yr un a thlws, a gyflwynir mewn digwyddiad UN Habitat byd-eang. Mae'r ceisiadau ar gyfer cystadleuaeth 2018 **bellach ar gau**. Ewch i www.worldhabitatawards.org i gael clywed am ddydiadau agor cystadleuaeth 2019.

Cyllid Llywodraeth Ganolog ac Ewropeaidd

Cynhwysiant Gweithredol

Cefnogir Cynhwysiant Gweithredol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ac mae'n cael ei rhedeg gan WCVA ar ran WEFO. Bwriad yr arian yw taclo tlodi ac eithrio cymdeithasol yng Nghymru drwy ddarparu cyllid grant ar gyfer prosiectau o bob maint hyd at £1,500,000 (gan gynnwys arian cyfatebol) sy'n cynorthwyo pobl economaidd anweithgar a'r di-waith hirdymor i gael sgiliau a chymwysterau ar gyfer y gweithle drwy gyfrwng lleoliadau gwaith a gefnogir â thâl a gweithgareddau ymarferol.

Nid oes rhagosodiad ynghylch y math o weithgareddau, neu gyflogaeth gefnogol os dewisir yr opsiwn hwnnw, a lle derbynnydd y grant yw penderfynu beth fyddai'n gweddu orau i'w haelodau, gan gynnwys prosiectau neu waith â ffocws amgylcheddol iddo. Gall sefydliadau wneud cais ar lein drwy e-TenderWales i ddod yn fuddiolwr cymeradwy o'r

Gronfa Cynhwysiant Gweithredol: unwaith y byddan nhw wedi llwyddo, cânt eu gwahodd i geisio am rowndiau grant a chânt hefyd wybod am gyfleoedd ariannu sydd ar gael i sefydliadau yng Nghymru.

Er y bydd y DU yn gadael yr UE, mae 'busnes fel arfer' yn parhau i Gynhwysiant Gweithredol, a gellir ariannu prosiectau hyd at ddiwedd 2019. Mae'r gronfa bellach yn cynnig rowndiau grant newydd, mwy hyblyg, gwelliannau i arian cyfatebol, a chymorth un i un sydd ar gael ar bob cam, o'r ymholiad cychwynol i gwblhau'r prosiect. Os nad ydych yn siŵr bod hyn ichi, cysylltwch â thîm Cynhwysiant Gweithredol yn activeinclusion@wcva.org.uk neu ffoniwch Ddesg Gymorth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a byddwn yn eich cyfeirio chi at rywun a all eich helpu.

Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol

Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn gronfa grant cyfalaf ar gyfer Cymru gyfan. Mae'n cynnig grantiau ar ddwy lefel, hyd at £25,000 a hyd at £250,000 y gellir eu defnyddio i wella cyfleusterau cymunedol. Rhaid i gyfleusterau cymunedol sydd i'w gwella gynnig gweithgareddau neu wasanaethau sy'n cynyddu ffyniant ac yn darparu cyfleoedd i bobl leol wella'u bywydau beunyddiol. Rhaid i geisiadau ddangos sut y mae'r gymuned yn cael ei chynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r cynigion a hefyd sut y bydd y gymuned yn parhau i gael ei chynnwys yn y gwaith o redeg y cyfleuster. Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau gan gymunedau a gafodd elw ynghynt o gyllid Cymunedau yn Gyntaf. Bydd canllawiau wedi'u diweddarau ar gael ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Gorffennaf 2018.

Grant Busnes i Ffermydd

Mae'r Grant Busnes i Ffermydd yn helpu ffermwyr yng Nghymru i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu daliadau amaethyddol. Mae'r grant yn darparu cyfraniad o 40% tuag at fuddsoddiadau cyfalaf mewn cyfarpar a pheirianwaith y rhagnodwyd eu bod yn cynnig buddion clir a mesuradwy i fentrau ffermio. Bydd cyllid gwerth £40 miliwn ar gael dros bedair blynedd. Y grant lleiaf sydd ar gael yw grant gwerth £3,000 a'r grant mwyaf yw grant gwerth £12,000. Dim ond un cais fesul busnes fydd yn cael ei gymeradwyo trwy gydol oes y cynllun.

Glastir

Glastir yw'r cynllun rheoli tir cynaliadwy a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a'r UE i gynnig cefnogaeth ariannol i ffermwyr a rheolwyr tir. Mae Glastir yn talu i ddarparu nwyddau amgylcheddol penodol a gwasanaethau sy'n anelu at:

- mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
- gwella rheoli dŵr
- cynnal a chadw a gwella bioamrywiaeth.

Mae'r mentrau cyllid canlynol ar gael trwy'r rhaglen Glastir:

- Adfer Coetir Glastir
- Grantiau Bach Glastir (Carbon) 2019
- Mynediad Glastir - ar gau i ymgeiswyr newydd
- Glastir Uwch 2019 – Ar gau i geisiadau newydd
- Creu Coetir Glastir
- Grantiau Bach Glastir (Dŵr)
- Grantiau Bach Glastir (Tirwedd a Phryfed Peillio)
- Cominau Glastir – ar gau i ymgeiswyr newydd

Mae wedi'i gynllunio i gyflawni canlyniadau mesuradwy ar lefel fferm a thirwedd mewn modd cost-ffeithiol. Mae Cynllun Grantiau Bach Glastir i fod i agor rownd ariannu ym mis Rhagfyr 2016. Cewch fwy o wybodaeth am Glastir **a dyddiadau cau'r gwahanol gynlluniau yma.**

Horizon 2020

Horizon 2020 yw rhaglen newydd yr UE am ymchwil ac arloesedd a fydd yn rhedeg o 2014-2020. Mae wedi ei rannu i 3 adran:

- Gwyddoniaeth Wych
- Arweinyddiaeth Ddiwydiannol
- Heriau Cymdeithasol

Caiff yr adrannau hyn eu rhannu'n bynciau wedi hynny a gwneir cais am geisiadau. Mae'r ceisiadau ar gyfer 2018–2020 wedi cael eu cyhoeddi a cheir dyddiadau cau drwy gydol 2018. Mae rhai meysydd o ddiddordeb arbennig wedi'u rhestru isod:

- **Her gymdeithasol 5:** Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, yr amgylchedd, effeithlonrwydd adnoddau a defnyddiau crai
- **Her gymdeithasol 2:** Diogelwch bwyd, amaethyddiaeth a choedwigaeth gynaliadwy, ymchwil forol, arforol a dŵr mewndirol, a'r bioeconomi
- **Marie Skłodowska Curie Actions: cymrodoriaeth ymchwil a rhaglenni hyfforddiant (gan gynnwys cymrodoriaethau y tu hwnt i academia)**
- **Offeryn BBaCh** – rhwng €50,000 a €2.5 miliwn er mwyn i BBaChau fynd â thechnoleg neu wasanaethau profedig newydd i'r UE neu farchnadoedd byd-eang.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaeth cyngor a chymorth i sefydliadau yng Nghymru sy'n chwilio am gyllid gan yr UE. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwneud cais am gyllid Horizon 2020 a hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag uned Horizon 2020: **Horizon2020@llyw.cymru**

Mae dinasyddion yr DU sy'n gwneud cais am gyllid o raglen Horizon 2020 yn elwa o warant gan lywodraeth y DU: "pan fydd sefydliadau yn y DU yn gwneud cais uniongyrchol i'r Comisiwn Ewropeaidd ar sail gystadleuol am brosiectau a ariannwyd gan yr UE tra ein bod yn parhau i fod yn aelod o'r UE, er enghraifft, prifysgolion sy'n cymryd rhan yn Horizon 2020, bydd y Trysorlys yn tanysgrifennu taliadau dyfarniadau o'r fath, hyd yn oed pan fydd prosiectau penodol yn parhau ar ôl i'r DU adael yr UE." Gellir gweld papur holi ac ateb gwarantiedig y DU **yma.**

Interreg – Cydweithio Rhanbarthol yn Ewrop 2014-2020

Mae INTERREG yn darparu cyllid ar gyfer prosiectau cydweithio ar draws Ewrop. Gall prosiectau partneriaeth sy'n cynnwys sefydliadau o bob rhan o Ewrop wneud cais am alwadau agored sy'n canolbwyntio ar rannu gwybodaeth a throsglwyddo profiad er mwyn gwella polisi rhanbarthol.

Ceir tri llinyn i'r rhaglen:

- INTEREGG VA – cydweithredu ar draws ffiniau
- INTERREG VB – cydweithredu rhyng-genedlaethol
- INTERREG VC – cydweithredu rhyng-ranbarthol

Y themâu ar gyfer cyfnod rhaglennu 2014-2020 yw:

- Ymchwil a Menter
- Cystadleurwydd Mentrau Bach a Chanolig

- Economi carbon isel – mae'r thema hon yn ymwneud â thrawsnewid i economi carbon isel ymhob sector. Gallai hynny ddigwydd drwy bolisïau a fwriadwyd i godi cyfran y ffynonellau ynni adnewyddol yn y gymysgfa ynni er mwyn hybu trafndiaeth gynaliadwy aml-ddull e.e. datblygu strategaethau carbon isel rhanbarthol
- Effeithlonrwydd amgylchedd ac adnodd – mae dau faes penodol ar gael ar gyfer cydweithredu - gwarchod a datblygu treftadaeth naturiol a diwylliannol e.e. gwella rheolaeth parciau natur rhanbarthol - symud i economi sy'n effeithlon o ran adnoddau, hybu twf gwyrdd ac eco- fenter e.e. cynyddu cyfraddau ailgylchu ymysg Mentrau Bach a Chanolig.

Mae'r rhaglenni hyn bellach yn weithredol, a gwnaed galwadau'n barod; felly os oes gan eich sefydliad syniad am brosiect, a bod gennych y capasiti i ddarparu prosiect partneriaeth – yna cadwch lygad ar wefan Interreg Ewrop ar gyfer cylchoedd ariannu sy'n cael eu rhyddhau. Gall sefydliadau'r drydedd sector gysylltu â 3set@wcva.org.uk i gael cefnogaeth wrth ddatblygu cynnig am brosiect.

Rhaglen LEADER yng Nghymru

Mae wedi datblygu drwy nifer o gyfnodau gwahanol o Raglenni a chaiff ei gynnwys yn 'Cymunedau Gwledig - Rhaglen Datblygiad Gwledig 2014-2020' Llywodraeth Cymru gyda'r potensial i gefnogi'r chwe chynnig gan Blaenoriaethau Datblygu Gwledig. Mae dull o weithredu'r LEADER yn golygu grymuso lleol drwy ddatblygu strategaeth leol a dosbarthiad adnoddau. Y prif arf ar gyfer cais ar gyfer y dull yma o weithredu datblygiad ardal a chynnwys cynrychiolwyr wrth wneud penderfyniadau ydy Grŵp Gweithredu Lleol y LEADER (LAG). Math o Ddatblygiad Lleol yn cael ei redeg gan y Gymuned yw LEADER (CLLD). Drwy broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid, cynyddu gallu grwpiau targed a chydweithio mae problemau a wyneb i'r cyfleoedd sydd ar gael i ardal yn cael eu hadnabod ac atebion posibl yn cael eu peilotio. Ceir Grŵp Gweithredu Cymunedol ym mhob Ardal Awdurdod Lleol. Cewch fwy o wybodaeth am gyllid sydd ar gael yn eich ardal chi **yma**.

Rhaglen LIFE

Rhaglen LIFE yw offeryn ariannol Comisiwn Ewrop ar gyfer cefnogi prosiectau'r amgylchedd a chadwraeth byd natur ledled yr UE. Amcan cyffredinol y gronfa yw cyfrannu at weithredu a datblygu polisi a deddfwriaeth amgylcheddol a hinsawdd yr UE. Rhennir y rhaglen yn ddwy is-raglen – Amgylchedd a Gweithredu ar Hinsawdd.

Mae'r is-raglen Amgylchedd yn delio â thri maes blaenoriaeth:

- Mae prosiectau Natur a Bioamrywiaeth yn canolbwyntio ar weithredu'r Cyfarwyddyd Adar a Chynefinoedd a Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE;
- Mae prosiectau Amgylchedd ac Effeithlonrwydd Adnoddau'n canolbwyntio ar dreialu, datblygu a dangos dulliau ac atebion i heriau amgylcheddol ar draws yr UE; ac
- Mae prosiectau Llywodraethiant a Gwybodaeth Amgylcheddol yn canolbwyntio ar gynyddu gwybodaeth a'i rhannu.

Mae'r is-raglen Hinsawdd yn ymwneud â'r tair blaenoriaeth hon:

- Prosiectau Addasu Hinsawdd sy'n canolbwyntio ar gynyddu gwytnwch yn wyneb newid hinsawdd;
- Prosiectau Lleihau Effaith Hinsawdd sy'n canolbwyntio ar leihau allyriadau nwy tŷ-gwydr; a
- Llywodraethiant a Gwybodaeth Hinsoddol sy'n canolbwyntio ar gynyddu gwybodaeth am faterion yn ymwneud â'r hinsawdd, a rhannu'r wybodaeth honno.

Mae'r rhaglen waith amlflwyddyn nesaf yn rhedeg rhwng 2018 a 2020 ac fe'i cyhoeddwyd tua dechrau 2018. Am ddiweddariad ar raglen LIFE o fewn y DU, gweler gwefan **UK LIFE** am ragor o wybodaeth a'r rhaglen waith aml-flwyddyn.

Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig

Mae'r Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig yn cael ei reoli gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac mae'n rhoi arian ar ôl i waith gael ei wneud i dalu am y TAW a ddaeth yn ddyledus ar atgyweirio a gwneud newidiadau i'r adeiladau rhestredig hynny a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer addoli cyhoeddus (lleiafswm gwerth gwaith cymwys £1000 – er y gellir cyflwyno un cais ble mae gwerth y gwaith cymwys yn digwydd bod rhwng £500-£1000 mewn unrhyw gyfnod penodedig o 12 mis). Mae gan y cynllun gyllideb benodedig flynyddol a hysbysebwr ar wefan Cynllun Grant LPW bob blwyddyn. Cadarnhawyd y bydd y cynllun yn cael ei gyllido tan fis Mawrth 2020. Gellir llenwi ceisiadau ar lein neu drwy'r post. Gellir gweld manylion llawn y cynllun ar y wefan swyddogol: <http://www.lpwscheme.org.uk>

Cyfleuster Ariannol Cyfalaf Naturiol (NCFF)

Ariannir Cyfleuster Ariannol Cyfalaf Naturiol (NCFF) drwy raglen LIFE dros Newid yr Amgylchedd a Hinsawdd a chaiff ei reoli gan Fanc Buddsoddi Ewrop (EIB). Y prif nod yw dangos bod prosiectau cyfalaf naturiol yn gallu cynhyrchu refeniw neu arbed costau tra'n cyflawni amcanion bioamrywiaeth ac addasiadau hinsawdd. Bydd Cyfleuster Ariannol Cyfalaf Naturiol (NCFF) yn datblygu cyfres o weithrediadau y gellir eu hatgynhyrchu ac a fydd yn ddiogel yn ariannol fydd yn sefyll fel 'prawf o gysyniad' ac a fydd yn dangos atyniad y fath gynlluniau i fuddsoddwyr posibl. Yn nodweddiadol, bydd y prosiectau hyn rhwng €5 miliwn a €15 miliwn. Mae sefydliadau cyhoeddus a phreifat, yn cynnwys llywodraethau lleol, meddianwyr tir a busnesau yn gymwys i wneud cais. Bydd prosiectau yn canolbwyntio ar fioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau yn cael eu cefnogi. Dylai prosiectau hyrwyddo cadwraeth, gwaith adfer, rheoli a gwelliant cyfalaf naturiol sy'n gallu bod o fantais i fioamrywiaeth ac addasiadau hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys datrysiadau ar sail ecosystemau i sialensau'n ymwneud â thir, pridd, coedwigoedd, amaeth, dŵr a gwastraff.

Mae esiamplau o brosiectau'n cynnwys:

- Seilwaith Gwyrdd (e.e. toeau gwyrdd, waliau gwyrdd, casglu dŵr glaw wedi'i seilio ar ecosystem/ system ail-ddefnyddio dŵr, amddiffyn rhag llifogydd a rheolaeth ar erydu.)
- Taliadau ar gyfer gwasanaethau ecosystemau (e.e. rhaglenni i warchod a gwella coedwigoedd, bioamrywiaeth, i leihau llygredd dŵr neu bridd).
- Gwrthbwyso bioamrywiaeth / iawndal tu hwnt i ofynion y gyfraith (e.e. cronfeydd iawndal ar gyfer prosiectau iawndal ar safle ac oddi ar safle).
- Busnesau yn gefnogol i fioamrywiaeth ac ymaddasu (e.e. amaeth, dyframaethu, eco-dwrstiaeth, coedwigaeth gynaliadwy).
- Ac eithrio "Gwrthbwyso Bioamrywiaeth" gall bob un o'r categorïau uchod gynnwys prosiectau mewn ardaloedd o werth bioamrywiaeth uchel yn cael eu gwarchod yn Natura 2000. Mae dyddiad cau symudol ar gyfer y gronfa hon.

Mae'r cyfleuster yn awr wedi'i ymestyn tan 2021 a chroesewir ceisiadau unrhyw bryd.

Sir Benfro - Grant Bach Gwyrdd

Mae Grantiau Bach Gwyrdd ar gael i gefnogi ac i elwa cymunedau a leolir ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro trwy helpu cymunedau i fyw mewn ffordd sy'n cydbwyso anghenion y bobl, yr amgylchedd a'r economi lleol. Mae grantiau o hyd at £1,500 ar gael,

ac mae'n rhaid i grwpiau ddarparu o leiaf 25% o arian cyfatebol; gall hyn gynnwys cyfraniadau nad ydynt yn ariannol. Derbynnir ceisiadau gan unigolion, grwpiau o unigolion, sefydliadau lleol, busnesau bach, a grwpiau gwirfoddol neu gymunedol. Am ragor o wybodaeth, neu i archebu pecyn ymgeisio, anfonwch e-bost at development@pavs.org.uk neu ffoniwch 01437 769422. Dyddiadau Cau ar fin digwydd: **07 Medi 2018 a 18 Ionawr 2019**

Cynllun Cerbyd Plygio-i-mewn

Mae'r fenter hon gan y Llywodraeth Ganolog yn galluogi modurwyr sy'n prynu cerbyd gymwys ag allyriadau isel iawn i gael grant o 35% tuag at gost y cerbyd, hyd at uchafswm o £8,000. Lluniwyd y grant fan plygio-i-mewn er mwyn helpu i wneud costau gydol oes fan gymwys yn fwy cyson â faniau petrol neu ddiesel tebyg. Gall defnyddwyr preifat a busnesau fanteisio ar y grant hwn. Does dim rhaid i chi wneud dim os ydych chi'n dymuno prynu cerbyd o'r fath – bydd y gwerthwr yn cynnwys gwerth y grant ym mhris y cerbyd.

Powys – Cronfa Grant Cyfalaf Adfywio a Datblygu Cymunedol

Mae Powys yn cydnabod gwerth grwpiau a chymdeithasau cymunedol sy'n ceisio cynnal eu cymunedau eu hunain, trwy ymgymryd â phrosiectau sy'n cynnwys cyfranogiad lleol gan bawb. Prif bwrpas Cronfa Grant Cyfalafol Adfywio a Datblygu Cymunedol (Grant Cyfalafol Cronfa Cefnogi Galluedd Cymunedol gynt) yw cefnogi datblygiad cymdeithasol a chymunedol. Gall grwpiau a sefydliadau gwirfoddol sy'n gallu profi iddynt fod â chyfansoddiad priodol wneud cais. Mae gwariant cyfalaf yn cynnwys cael gafael ar neu wella asedau sefydlog sydd â gwerth hir dymor i'r grŵp neu'r sefydliad, fel tir, adeiladau ac offer a pheiriannau sylweddol. Mae asedau cyfalaf yn siapio'r ffordd y mae gwasanaethau'r grŵp neu sefydliad yn cael eu cyflenwi yn y tymor hir, ond byddant yn creu ymrwymadau ariannol ar gyfer y dyfodol drwy ariannu costau a chostau rhedeg refeniw. Refeniw yw ble mae costau rhedeg gwariant y grŵp neu sefydliad yn cael ei wneud - yn berthnasol i bethau fel cyflogau, costau gwres a goleuo, treuliau ayb. Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i'r ceisiadau hynny sy'n cyrraedd amcanion a nodau Cyngor Sir Powys neu sy'n helpu darpariaeth y strategaeth. Fel arfer, bydd y grantiau hyd at £15,000 a gellir gwneud cais unrhyw bryd.

Re:Fit Cymru

Rhaglen gan Lywodraeth Cymru (a ddechreuwyd yn Ebrill 2016) yw Re:fit Cymru i gefnogi sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i nodi, datblygu a darparu effeithiolrwydd ynni a dŵr neu brosiectau adnewyddadwy sy'n ymwneud ag adeiladu gydag arbedion blynyddol gwarantedig a mesuredig. Mae Re:fit Cymru ar gael i'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn unig. Mae Re:fit Cymru yn defnyddio fframwaith llwyddiannus Re:fit y DU, sy'n cydymffurfio â Chyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ac sydd wedi bod yn fuddiol i'r sector cyhoeddus yn y DU ers 2010. Mae rhaglen Re:fit Cymru yn darparu cefnogaeth broffesiynol sylweddol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru drwy gydol eu prosiectau, drwy Uned Gweithredu'r Rhaglen a'r Tîm Cymorth Technegol. Mae'r gefnogaeth hon yn helpu sefydliadau sy'n brin o adnoddau a chyllid.

Er mwyn elwa ar Re:fit Cymru, mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn arwyddo Cytundeb Mynediad a Chytundeb Cefnogi Cleientiaid, ac yn talu cyfraniad nominal o £10,000 (a delir ar ôl cyflawni'r prosiect) ar gyfer y costau sy'n gysylltiedig â'r gefnogaeth broffesiynol a roddir iddynt. Mae'r cyfraniad hwn yn cyfateb i ffracsiwn o werth gwirioneddol y gefnogaeth a dderbynnir gan bob sefydliad. Er mwyn ariannu Re:fit Cymru, gwnaeth Llywodraeth Cymru sicrhau arian grant gan Gymorth Ynni Lleol Ewrop (ELENA), a weinyddir gan Fanc Buddsoddi Ewrop (EIB).

Mae Re:fit Cymru yn gweithio'n agos gyda Thwf Gwyrdd Cymru a rhaglenni Llywodraeth Cymru eraill, gan gynnwys 'Rhaglen Gyllido Cymru', sy'n cynnig benthyciadau 0% buddsoddi i arbed, a benthyciadau Salix.

Bydd Re:fit Cymru yn darparu cefnogaeth drwy:

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau ymrwymiad sefydliadol
- Datblygu strategol a phrosiectau gan gynnwys meincnodi i nodi cyfleoedd i wneud arbedion ar gyfer buddsoddi
- Cefnogaeth caffel a chyfreithiol
- Cyngor technegol gan gynnwys cefnogaeth mesur a gwirio
- Mynediad i fframwaith sector cyhoeddus ar draws y DU
- Cefnogaeth wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen.

Yn gryno, mae'r prif fanteision o ddefnyddio Re:fit Cymru fel a ganlyn:

- Rhaglen a gefnogir yn llawn gan dîm arbenigol Llywodraeth Cymru
- Mae'n defnyddio fframwaith cadarn a phroffedig Re:fit y DU
- Mae'n galluogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru i fynd i'r afael yn gyflym â phrosiectau ynni/dŵr/costau / lleihau/cynnal carbon neu greu incwm ar raddfa fawr fesul cam – gydag adnoddau cyfyngedig
- Mae'n cynnig arbedion gwarantiedig, y gellir eu mesur a'u gwirio, sy'n trosglwyddo'r risg i'r darparwyr gwasanaeth, bob blwyddyn
- Benthyciad sero % a chyllid grant ar gael gan Raglen Gyllido Cymru
- Mae sefydliadau dim ond yn cyfrannu £10k tuag at becyn cymorth helaeth Uned Gweithredu'r Rhaglen a chymorth technegol, sy'n cael ei dalu'n hwyrach yn ystod cyfnod darparu'r prosiect. Rhoddir £2k er mwyn cefnogi camau pellach o'r prosiect.
- Hyrwyddo ac integreiddio'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cyfleoedd prosiect.

Os ydych chi'n dod o sefydliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a hoffech wybod mwy am sut y gall Re:fit Cymru fod o fudd i chi, cysylltwch â Glyn Mountford neu Tristan Oliver ar: refitcymru@gov.wales

Cymunedau Gwledig – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020

Mae Cymunedau Gwledig – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru yn rhaglen 7 blynedd dan y rhaglen European Agricultural Fund for Rural Development (EAFRD) a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw gwella cydnerthedd a hybu newid trawsffurfiol ym maes amaeth, coedwigaeth a chymunedau gwledig. Bydd y gronfa yn dod â bron 1 biliwn i'r Gymru wledig a bydd yn cefnogi gweithgareddau er mwyn gwella cystadleurwydd yn y sector amaeth a choedwigaeth; diogelu a gwella'r amgylchfyd gwledig; a meithrin busnesau gwledig cystadleuol a chynaliadwy a chymunedau gwledig llewyrchus.

Gellir lawrlwytho rhestr o ddyddiadau i'r dyfodol ar gyfer Mynegi Diddordeb o **fan hyn**.

Mae 8 o gynlluniau newydd wedi eu datblygu drwy'r CDG (hefyd eraill sydd wedi eu cynnwys o'r rhaglen olaf) a fydd yn cael eu defnyddio i benodi arian ar gyfer prosiectau addas drwy alwadau o fynegiadau o ddiddordeb, Mae'r cynlluniau yn y tabl isod:

Cynllun	Dyddiad Cau	Gwybodaeth
<p>Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth</p>	<p>Dyddiad Cau: Dyddiadau i'w cadarnhau</p>	<p>Mae'r cynllun hwn yn annog cynllunio i greu coetiroedd llydanddaill a chonifferaidd. Trwy roi cymorth ariannol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a fydd yn cefnogi'r nod hwn a thrwy hynny:</p> <ul style="list-style-type: none"> • wella'r gwaith o reoli ein hadnoddau naturiol • cyfrannu at les ein cymunedau gwledig. <p>Nod y Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth yw cefnogi cynigion sy'n ceisio hwyluso, datblygu neu sefydlu cydweithrediadau a gweithgareddau newydd a helpu cydweithrediadau newydd posibl i ddatblygu cynigon ar gyfer prosiectau.</p> <p>Mae enghreifftiau o weithgareddau sy'n gymwys o dan y cynllun yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu a chydlynu grwpiau cydweithredol • Gweithgareddau cyfathrebu a lledaenu gwybodaeth • Astudiaethau technegol a dichonolrwydd • Gweithgareddau monitor a gwerthuso
<p>Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio</p>	<p>Dyddiadau i'w cadarnhau</p>	<p>Cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau cydweithredol ar draws y sectorau amaeth, bwyd a choedwigoedd. Mae'r Cynllun Datblygu Cydweithrediad a Chadwyn Gyflenwol (C&SCDS) wedi ei gynllunio i helpu gwneud pethau newydd i ddigwydd. Bydd yn darparu cefnogaeth ar gyfer ystod eang o faterion ac ar gyfer pob agwedd o'r prosiect, o'r camau cyntaf i ledaenu a gwerthuso. Ni all y cynllun gefnogi gweithgareddau ar y cyd sydd yn cymryd lle yn barod ond mae'n cefnogi grŵp sydd eisoes yn bodoli mewn ymgymryd â phrosiect newydd ar y cyd.</p>
<p>Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd</p>	<p>Dyddiad Cau: 30 Mehefin 2018</p>	<p>Mae Cynllun Buddsoddiad Busnes Bwyd (FBIS) wedi cael ei gynllunio i helpu prif gynhyrchwyr o gynnyrch amaethyddol a busnesau sy'n gwneud gweithgareddau prosesu cam cyntaf, a/neu ail-gam yng Nghymru. Gall y cynllun ddarparu buddsoddiad cyfalaf a chefnogaeth arall i brosiectau lle bo o leiaf 90% o gynnyrch amaethyddol cymwys yn cael eu prosesu.</p>
<p>Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - Bwyd</p>	<p>Dyddiadau i'w cadarnhau</p>	<p>Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau - BWYD (RBISF) yn gynllun buddsoddi cyfalaf i helpu prosiectau sy'n dod â manteision clir a mesuradwy i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae'r cynllun ar agor i broseswyr a chynhyrchwyr bwyd a diod micro a bach, hen a newydd ledled Cymru.</p>

<p>Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig</p>	<p>Agor 5 Ebrill 2018, Dyddiad Cau: 7 Mehefin 2018</p>	<p>Mae Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (RCDF) yn cynnig grantiau sydd yn cael eu targedu yn y lle cyntaf at Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER a sefydliadau eraill wedi eu seilio yn y gymuned</p> <p>Bydd y grantiau yn darparu arian am ystod eang o weithgareddau i helpu cwrdd ag anghenion lleol ac i gryfhau cymunedau fel y gallant dyfu a llwyddo.</p>
<p>Cynllun Rheoli Cynaliadwy</p>	<p>Dyddiadau i'w cadarnhau</p>	<p>Bydd y Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn darparu cefnogaeth ariannol am ystod o weithgareddau a fydd yn gwella rheolaeth ein hadnoddau naturiol ac o wneud hynny cyfrannu at les Cymunedau gwledig. Mae'r cynllun yn cynnig grantiau i grwpiau cydweithredol sy'n bwriadu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwella ein hadnoddau naturiol a'r lles maent yn eu darparu • gweithredu er mwyn lleihau allyriadau nwy tŷ gwydr • gwella gwytnwch busnesau a chymunedau i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd.
<p>Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy</p>	<p>Dyddiadau i'w cadarnhau</p>	<p>Mae'r Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG) yn becyn cefnogi grant cyfalaf wedi ei anelu at ffermwyr yng Nghymru.</p> <p>Rydym wedi cynllunio'r cynllun yma i helpu ffermwyr wella perfformiad amgylcheddol ac economaidd o'u safle amaethyddol yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru a'r diwydiant amaeth yng Nghymru am fusnesau fferm mwy cynaliadwy, proffidiol a chryf.</p>
<p>Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren</p>	<p>Dyddiadau i'r dyfodol i'w cadarnhau</p>	<p>Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnes Pren yn darparu arian am fuddsoddiadau cyfalaf sy'n ychwanegu gwerth i goedwigoedd wrth alluogi gweithgareddau rheolaeth coedwigoedd, cynaeafu pren a/neu brosesu coed.</p> <p>Mae'r cynllun yn agored i berchnogion coedwigoedd preifat, awdurdodau lleol, rhai perchnogion coedwig yn y sector cyhoeddus a busnesau bach/ maint canolig (SMEs) a sefydliadau cymunedol neu gontractwyr coedwigoedd.</p>

Cronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol – grant cyfunol a chymorth ariannol ad-daladwy ar gael trwy Fuddsoddiad Cymdeithasol Cymru, WCVA

Mae Cronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol yn cefnogi busnesau cymdeithasol yng Nghymru yn ariannol i'w helpu i dyfu a chreu cyfleoedd swyddi, trwy gyfuniad unigryw o grant (40%) a chymorth ariannol ad-daladwy (60%). Caiff sefydliadau sy'n cyflawni yn erbyn targedau creu swyddi leihau cyfanswm y cymorth ariannol y maent yn ei ad-dalu.

Mae cymorth o hyd at £150,000 ar gael ac yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Cronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF)

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cronfa grantiau yw'r SDF ar gyfer cefnogi prosiectau sy'n datblygu a phrofi ffyrdd o fyw mwy cynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol. Cewch fwy o wybodaeth am y gronfa a manylion cyswllt y staff perthnasol drwy ddilyn y ddolen yn y teitl.

AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cynnig grantiau prosiect, grantiau rheoli i gefnogi costau staff neu grantiau datblygu er mwyn sbarduno gweithredu neu bartneriaethau newydd. Fel arfer mae'n darparu 50% o gyfanswm costau'r prosiect ond mae hyd at 75% ar gael ar gyfer prosiectau sector gwirfoddol cymwys. Disgwylir i ymgeiswyr gyfrannu o leiaf 25% o gyfanswm costau'r prosiect naill ai o'u coffrau eu hunain neu o ffynonellau eraill megis cronfeydd Ewropeaidd, arian y Loteri Genedlaethol neu gyfraniadau "mewn nwyddau/gwasanaethau".

AHNE Gŵyr

Mae ceisiadau dros £3,000 yn cael eu hasesu gan banel o bobl leol sy'n cwrdd bedair gwaith y flwyddyn. Cyn gwneud cais, fe'ch cynghorir yn gryf i drafod eich syniadau gyda ni er mwyn sicrhau bod eich prosiect yn gymwys ar gyfer ei ariannu. Cysylltwch â Mike Scott, Swyddog AHNE (mike.scott2@swansea.gov.uk) am fanylion y broses ymgeisio.

AHNE Llŷn

Mae'r SDF yn darparu grantiau prosiect, grantiau rheoli i gefnogi costau staff a grantiau datblygu er mwyn sbarduno gweithredu neu bartneriaethau newydd. Fel arfer, bydd yr ariannu'n cael ei bennu rywle rhwng 50% a 75% o gyfanswm cost y prosiect ond mwy o bosib mewn rhai amgylchiadau eithriadol. Disgwylir i'r ymgeiswyr ddarparu o leiaf 25% o gyfanswm costau'r prosiect, naill ai o'u harian eu hunain neu o gronfeydd grant eraill. Gall swyddogion o'r Uned AHNE ddarparu manylion am ffynonellau cyllid cyfatebol posibl.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mae Cronfa Datblygu Cynaliadwy Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro'n cefnogi prosiectau cynaliadwy arloesol sy'n datblygu a phrofi ffyrdd newydd o sicrhau ffyrdd o fyw mwy cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae gronfa'n chwilio am brosiectau sy'n cyfrannu at nodau Llesiant Deddf Cenedlaethiadau'r Dyfodol.

Cronfa Eryri

Mae Cronfa Eryri'n gronfa o tua £100,000 y flwyddyn sy'n cael ei gweinyddu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda chymorth Fforwm Eryri. Diben y Gronfa yw cefnogi prosiectau a fydd yn cyflawni dibenion, nodau ac amcanion Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri ("Y Cynllun Partneriaeth"). Mae dibenion eang y Parc Cenedlaethol fel a ganlyn: 1. Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol 2. Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig parciau cenedlaethol. Mae gennym hefyd ddyletswydd i: Feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y parciau cenedlaethol

AHNE Dyffryn Gwy

Mae'r cynllun ar gael i unrhyw sefydliad gan gynnwys grwpiau cymunedol neu wirfoddol, awdurdodau lleol, y sector preifat ac unigolion. Rhaid i'r sector preifat ac unigolion ddangos bod eu

prosiectau o fudd cyhoeddus ehangach. Gall ceisiadau fod am grantiau bychain o lai na £1,000, gan gynnwys ar gyfer gwella tirwedd a bioamrywiaeth, neu grantiau mwy o hyd at £25,000 mewn amgylchiadau eithriadol.

Arian Loteri

Cronfa'r Loteri Fawr

Cronfa'r Loteri Fawr yw'r ariannwr cymunedol mwyaf yng Nghymru. Bob blwyddyn, mae'n dosbarthu miliynau o bunnoedd o arian achosion da'r Loteri Genedlaethol i grwpiau cymunedol a phrosiectau elusennol ledled y wlad. Mae'n credu y dylai pobl arwain y ffordd wrth wella'u bywydau a chymunedau. Mae dull y Gronfa'n canolbwyntio ar y sgiliau a'r egni gall pobl eu defnyddio ac ar botensial eu syniadau.

Cronfa'r Loteri Fawr: Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, Cymru

Mae Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol yn darparu grantiau rhwng £300 a £10,000 ar gyfer gweithgarwch cymunedol ac ar lawr gwlad sy'n bwriadu gwella bywyd ar gyfer pobl leol a chymdogaethau. Mae'n bwysig eich bod yn cynnwys eich cymuned yn y gwaith o lunio, datblygu a chyflawni'r gweithgareddau rydych yn eu cynllunio, felly os ydych yn gwneud cais, bydd angen i chi egluro sut rydych wedi gwneud hyn. Mae'r rhaglen yn agored i unrhyw sefydliad nid er elw, a gallwch wneud cais ar unrhyw bryd.

Cronfa'r Loteri Fawr: Pawb a'i Le

Bydd rhaglen Pawb a'i Le yn ariannu prosiectau lle mae pobl a chymunedau, wrth weithio gyda'i gilydd, yn defnyddio'u cryfderau i gael effaith gadarnhaol ar y pethau sydd o'r pwys mwyaf iddynt. Caiff y cyllid ei rannu'n ddwy ran, **grantiau maint canolig** (£10,001 i £100,000) a **grantiau mawr** (£100,001 i £500,000). Mae'r rhaglen yn agored i unrhyw sefydliad nid er elw, a gallwch wneud cais ar unrhyw bryd.

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cynnal ac yn trawsnewid treftadaeth ar raddfa eang drwy fuddsoddiadau arloesol mewn prosiectau sy'n cael effaith barhaol ar bobl a llefydd. Mae'n awyddus i annog prosiectau y gellir eu hariannu'n haws o'r sector treftadaeth naturiol a gall gwasanaeth cymorth Catalyst Cymru roi cyngor a chymorth i gael gafael ar grantiau Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn dyfarnu ystod o grantiau sy'n werth £3,000 a mwy drwy'r rhaglenni a ganlyn. Mae gan bob rhaglen gwahanol **feini prawf, prosesau gwneud cais a dyddiadau cau**.

Rhannu Treftadaeth

£3,000 i £10,000 – Grant wedi'i gynllunio er mwyn ymchwilio i dreftadaeth gymunedol drwy weithgareddau o gofnodi atgofion i warchod bywyd gwyllt. Disgrifir y rhaglen fel un syml, gyda ffurflen gais fer a phenderfyniad cyflym.

Ein Treftadaeth

£10,000 to £100,000 - Mae'r rhaglen ar agor i sefydliadau nid-er-elw, perchnogion preifat sefydliadau treftadaeth a phartneriaethau i ddiogelu a rhannu pob agwedd ar dreftadaeth yn amrywio o atgofion personol a thraddodiadau diwylliannol i safleoedd archaeolegol, casgliadau amgueddfeydd a bywyd gwyllt prin. Os bydd unigolion neu sefydliadau dielw yn gysylltiedig â hyn, rhaid i fudd y cyhoedd o'r prosiect fod yn fwy nag unrhyw enill preifat.

Grantiau Treftadaeth

P'un ai eich bod am achub adeilad hanesyddol, rhoi bywyd newydd i gasgliad, neu gofnodi hanesion pobl, gall Grantiau Treftadaeth eich helpu gyda grantiau dros £100,000. Gall y

rhaglen eich helpu i ddechrau cloddiad archeolegol, helpu pobl i ddysgu sgiliau traddodiadol a gollwyd amser maith yn ôl, gofalu am rywogaethau a chynefinoedd prin, a llawer mwy.

Gwreiddiau Ifanc

£10,000 to £50,000 - Mae'r rhaglen hon ar gyfer prosiectau sy'n helpu pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed i ymchwilio i'w treftadaeth, o fannau gwyrdd, amgueddfeydd, a safleoedd hanesyddol i iaith, atgofion lleol a diwylliant ieuenctid.

Treftadaeth Gydnerth

Grantiau o hyd at £ 250,000 i sefydliadau sydd am adeiladu eu gallu neu gyflawni newid strategol er mwyn gwella rheolaeth treftadaeth yn y tymor hir. Mae treftadaeth yn cynnwys llawer o bethau gwahanol o'r gorffennol sy'n cael eu gwerthfawrogi ac mae'r pobl am eu trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol, gan gynnwys: safleoedd archaeolegol, adeiladau hanesyddol, treftadaeth naturiol gan gynnwys cynefinoedd, rhywogaethau a daeareg, a thirweddau a gerddi naturiol a dyluniwyd. Nid oes gofyn i geisiadau am gyllid o dan £100,000 wneud cyfraniad arian; bydd angen i geisiadau sy'n uwch na £ 100,000 wneud cyfraniad o 5% tuag at gost y prosiect. Gellir gwneud ceisiadau ar unrhyw adeg.

Y Loteri Genedlaethol

Rhoddir arian y Loteri Genedlaethol gan 12 o sefydliadau annibynnol, pob un ohonynt yn meddu ar wybodaeth arbenigol o'u sectorau i gefnogi Achosion Da y Loteri, sef y celfyddydau, elusennau a grwpiau gwirfoddol, treftadaeth, iechyd, addysg, yr amgylchedd a chwaraeon. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: www.lotterygoodcauses.org.uk

Adnoddau a Chymorth Defnyddiol

Aderyn - Cronfa Ddata Gwybodaeth a Chofnodi Bioamrywiaeth Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol Cymru

Aderyn yw Cronfa Ddata Gwybodaeth a Chofnodi Bioamrywiaeth Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol Cymru. Am fwy o wybodaeth am y data bywyd gwyllt sydd ar gael, ac i gyflwyno'ch cofnodion, ewch i'r wefan yma.

Canolfan Arthur Rank

Mae'r Ganolfan yn ymrwymedig i gefnogi'r gymuned wledig, ac mae wedi sefydlu 'Computers for Rural People' i gynnig cyfrifiaduron am gost isel iawn er mwyn annog pobl sy'n byw mewn man gwledig anghysbell i ymuno â'r byd digidol. Mae hefyd yn cynnig **adnoddau eraill** a ddisgrifir fel bod yn ddefnyddiol i gymunedau gwledig.

B&Q

Mae B&Q yn cymryd camau i wella'i effaith ar fyd natur; ei nod yw stopio gwerthu mawn mewn compost erbyn 2020 ac mae eisoes wedi rhoi'r gorau i werthu gwresogyddion patio, planhigion estron goresgynnol a phlaladdwyr neonicotinoid. Mae'r busnes eisiau annog garddwyr i gefnogi bywyd gwyllt trwy ei ymgyrch 'gerddi gwyrddach', sy'n cynnwys **adnoddau a chanllawiau** ar-lein. Mae pob siop B&Q yn gweithredu cynllun ailddefnyddio gan y gymuned a thrwy'r cynllun hwn gall ysgolion lleol, sefydliadau addysg arall a grwpiau cymunedol elwa o roddion sy'n cynnwys cynhyrchion na ellir eu gwerthu a defnyddiau i'w hailddefnyddio.

Busnes yn y Gymuned

Busnes yn y Gymuned (BITC) Cymru yw Rhwydwaith Fusnes Gyfrifol y Tywysog yng Nghymru. Ni yw'r elusen a arweinir gan fusnes sy'n gweithio gyda busnesau o bob maint ac ymhob sector er mwyn eu helpu i fanteisio i'r eithaf ar fanteision masnachol arferion busnes cyfrifol; ac ar yr un pryd wneud gwahaniaeth go iawn i bobl, economi ac amgylchedd Cymru. Ar hyn o bryd mae gennym gyfleoedd ble gall sefydliadau cymunedol elwa o gefnogaeth fusnes rhad ac am ddim, a sgiliau, brwdfrydedd ac egni gwirfoddolwyr o blith cyflogeion. Os oes gan eich elusen neu grŵp cymunedol brosiect y gellir ei gwblhau mewn diwrnod gan dîm o wirfoddolwyr – hoffem glywed oddi wrthyhch!. Gall timau amrywio mewn maint rhwng 10_50 o bobl, yn dibynnu ar faint sydd eu hangen arnoch, Er bod rhyw gymaint o godi arian yn bosib, rydym ni'n chwilio am brosiectau ble gall gwirfoddolwyr rannu'u hamser, eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn y bôn, yn hytrach na gwneud cyfraniad ariannol.

Dyma'r math o brosiectau y gellid eu cynnwys:

- Trefnu a chynnal gweithdai a gweithgareddau sgiliau
- Gwneud ystafell gymunedol yn fwy croesawgar a deniadol (e.e. creu murluniau a gwella'r lle)
- Harddu gofod allanol (e.e. creu gardd synhwyrau, datblygu patshyn llysiau neu wely blodau, creu llwybr)

Os oes gennych chi syniad, neu os hoffech drafod rhywbeth gyda ni, cysylltwch os gwelwch yn dda â: Simon Walters o'r Tîm Cymunedol yn BITC Cymru ar 029 2078 0050 neu e-bostiwch simon.walters@bitc.org.uk

Coed Cymru

Mae Coed Cymru'n rhoi cymorth a chynghor rhad ac am ddim ar reoli coedwigoedd yn sensitif a defnyddio cynnyrch coedwigoedd mewn modd cynaliadwy. Mae'n cwmpasu'r sbectrwm cyfan o dyfu coed newydd hyd at gynnyrch pren caled o Gymru sydd o safon uchel. Bwriad cyffredinol Coed Cymru yw bod yn hyrwyddwr ac yn gorff ymgyrchol ar gyfer coedwigoedd collddail yng Nghymru a gweithredu fel catalydd i greu budd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol drwy reoli coedwigoedd yn gynaliadwy. Rhoddir cynghor i bartïon â diddordeb ledled Cymru, gan gynnwys perchnogion coedwigoedd, ffermwyr, proseswyr pren, cadwraethwyr, pobl leol, cymunedau, a'r rheiny sy'n ymwneud â chyflogi mewn ardaloedd gwledig, twistiaeth a hamdden. Mae Coed Cymru hefyd yn gwneud gweithgareddau sy'n ymwneud ag ymchwil a datblygiad, cymorth technegol, addysg a hyfforddiant, ac ymgyrch i ymgorffori traddodiad coedwigol ym mywyd cymdeithasol a masnachol Cymru.

Gwirfoddolwyr Cadwraeth – Llawlyfrau Cadwraeth Ymarferol

Ers cryn amser, y Llawlyfrau ar gyfer Gwirfoddolwyr Cadwraeth sydd wedi bod y canllawiau 'sut i wneud' diffiniadol ar gyfer rheoli'r cefn gwlad a mannau gwyrdd. Maent yn cynnwys dros 1,000 o dudalennau o wybodaeth gefndirol, cynghor a chyfarwyddyd wedi'u hysgrifennu gan arbenigwyr, wedi'u darlunio, ac wedi'u trefnu mewn fformat clir, fesul cam. Mae'r llawlyfrau hyn bellach ar gael mewn fformat digidol, ac yn cynnwys popeth o blannu coed i godi waliau cerrig sychion, o dwyni tywod i lwybrau troed.

Ynni Lleol

Mae Ynni Lleol yn galluogi cymunedau lleol i gydweithio er mwyn crynhoi'r cynhyrchiant ynni sy'n eiddo lleol a rheoli galw lleol er mwyn lleihau biliau ac allyriadau carbon – **darllenwch ragor yma**. Mae Ynni Lleol o'r farn y dylai cymunedau elwa o symud eu defnydd o ynni i adegau rhatach o'r dydd a'i unioni â chynhyrchu lleol. Os oes gennych chi

brosiect ynni lleol neu os oes gennych ddiddordeb yn y syniad, **cysylltwch â ni** os gwelwch yn dda, a **gofynnwch am y cylchlythyr**.

Ffederasiwm Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol – Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol

Nod CLAS yw cynorthwyo grwpiau tyfu cymunedol, tirfeddianwyr – ynghyd ag eraill sy'n ymwneud â hygyrchedd tir – i weithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod mwy o dir ar gael ar gyfer tyfu cymunedol. **Tyfu Gyda'n Gilydd** – prosiect a luniwyd gyda'r bwriad o helpu prosiectau tyfu cymunedol i ddod yn fwy cynaliadwy yn ariannol.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – Adroddiad Llesiant yng Nghymru – Dysgu o'r Aseidiadau Llesiant

Nod yr **adroddiad** hwn yw rhannu'r hyn a ddysgwyd am y meysydd allweddol lle mae'r angen mwyaf am newid er mwyn sicrhau bod cynllunio llesiant yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r cyfleoedd a ddarperir gan y Ddeddf i rannu adnoddau, mabwysiadu ymagweddau newydd ac yn y pen draw wneud gwell penderfyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Arfer Da Cymru

Porth mynediad ar-lein sengl i arfer da a gwybodaeth gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yw Arfer Da Cymru.

Y Gynghrair Werdd – Lleolydd Ynni Adnewyddadwy

Gyda'r nod o ddarparu darlun hygyrch o sefyllfa ynni adnewyddadwy yn eu hardal ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghymru a Lloegr, mae'r lleolydd ynni adnewyddadwy yn dangos faint o'r trydan a'r nwy a ddefnyddir mewn ardal benodol sy'n cael ei gynhyrchu o ddeunyddiau adnewyddadwy a sut mae lleoedd yn perfformio o'i gymharu ag eraill.

Grants up for Grabs Hippowaste

Mae'r cynllun 'Grants up for Grabs' yn cynnig help i waredu gwastraff am ddim yn dilyn ceisiadau gan elusennau, grwpiau cymunedol a sefydliadau o bob rhan o'r DU sy'n ysbrydoli parch at yr amgylchedd neu sy'n cael effaith gadarnhaol ar y gymuned.

In Kind Direct

Elusen gofrestredig yw In Kind Direct a sefydlwyd gan Dywysog Cymru yn 1996 i weithredu fel system glirio ar gyfer nwyddau dros ben o'r sector corfforaethol. Mae'r nwyddau hyn yn cael eu hanfon at achosion da yn y sector gwirfoddol wedi hynny. Nod In Kind Direct yw cynyddu'r llif o nwyddau i elusennau'r DU, gan helpu pobl sydd mewn angen, yn y DU a thramor. Mae'n gwneud hyn drwy gynnig nwyddau cost isel i sefydliadau o fewn y sector gwirfoddol. Mae sefydliadau sydd wedi'u cofrestru â'r nawdd yn derbyn rhestr bob mis o'r nwyddau sydd ar gael. Yna gall eitemau gael eu harchebu o'r rhestr.

Cadwch Gymru'n Daclus – Prosiect y Goedwig Hir

Mae Cadwch Gymru'n Daclus eisiau diogelu ein gwrychoedd a'u gwneud yn bwysig unwaith eto. Maent yn ffurfio rhan hanfodol o'n tirwedd, ond maent mewn perygl o gael eu hesgeuluso, eu niweidio a'u gwaredu. Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cymryd camau i atal y dirywiad hwn. Gan weithio mewn partneriaeth gyda **Coed Cadw**, gyda chymorth gan **Gronfa Dreftadaeth y Loteri**, maent wedi datblygu Prosiect y Goedwig Hir. Gyda'i gilydd, byddant yn cyflawni camau ymarferol – gan recriwtio miloedd o wirfoddolwyr i blannu 100,000 o goed a gwella oddeutu 120,000m o wrychoedd. Byddant hefyd yn datblygu dulliau newydd i bobl archwilio a chofnodi'r gwrychoedd sy'n agos atynt. **Edrychwch ar eu map** i weld ym mhle maent yn cyflwyno prosiect y Goedwig Hir.

Cadwch Gymru'n Daclus – Trefi Taclus

Mae Trefi Taclus yn fenter gymunedol sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, a'i bwriad yw cynorthwyo grwpiau cymorth gwirfoddolwyr i fod yn gyfrifol am eu hamgylchfyd lleol. Mae'n cefnogi cymunedau er mwyn gwneud ardaloedd lleol yn fannau gwell, glanach i fyw ynddynt e.e. drwy droi tir gwastraff yn lle sy'n cael ei rannu gan y gymuned; creu a rheoli cynefinoedd peillio cyfoethog, rheoli rhywogaethau goresgynnol, prosiectau tyfu, neu wella mynediad i gyfleusterau lleol drwy adfer llwybrau. Mae swyddog prosiect Cadwch Gymru'n Daclus yn gweithio ym mhob awdurdod lleol er mwyn cynorthwyo grwpiau i roi cychwyn arni a gyda meithrin sgiliau a gallu. Mae'r swyddogion hefyd yn helpu prosiectau i gysylltu â'r awdurdod lleol, yn ogystal â'r heddlu ac asiantaethau amgylcheddol.

Llais y Goedwig – y rhwydwaith coetiroedd cymunedol i Gymru

Mae Llais y Goedwig yn rhwydwaith llawr gwlad ac iddi 350 o aelodau a'i nod yw cynrychioli a chefnogi grwpiau coetir cymunedol ac ymarferwyr ar draws Cymru. Mae'n darparu amrywiaeth o adnoddau, cysylltiadau ac astudiaethau achos i gefnogi creu a rheoli coetiroedd cymunedol cynaliadwy ynghyd â Gwasanaeth Ymholiadau lle gellir rhannu pryderon a chael atebion i ymholiadau gan aelodau eraill o'r rhwydwaith.

Ynni Lleol – Porth Partneriaeth

Nod y Porth Partneriaeth yw cynorthwyo perchenogaeth gymunedol o brosiectau ynni adnewyddadwy. Gall grwpiau cymunedol ddefnyddio'r Porth i bostio gwybodaeth ynglŷn â'u prosiect, a gall gael ei ddefnyddio gan ddarpar bartneriaid neu fuddsoddwyr sy'n awyddus i gefnogi prosiect yn eu hardal, a gan gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol presennol sy'n fodlon rhannu eu profiadau a chynnig cymorth cyfoedion.

Ynni Lleol – Pecyn Cymorth Ynni Lleol

Mae Pecyn Cymorth Ynni Lleol wedi'i lunio i helpu grwpiau cymunedol i fynd ati i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy. Mae wedi'i gynllunio i fod yn addas i bobl sydd â lefelau gwahanol o ddealltwriaeth o faterion yn ymwneud â thechnoleg a datblygu prosiect a materion ariannol a chyfreithiol.

Pecyn Cymorth Protocol Cyfalaf Naturiol

Mae'r Pecyn Cymorth Protocol Cyfalaf Naturiol yn adnodd gan Gyngor Busnes y Byd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (WBCSD) a'r Gynghrair Cyfalaf Naturiol, er mwyn helpu cwmnïau i weithredu'r Protocol Cyfalaf Naturiol. Darllenwch beth mae arbenigwyr yn ei ddweud am y Pecyn Cymorth Protocol Cyfalaf Naturiol [yma](#).

NCVO

Mae NCVO yn darparu canllawiau ar gyllid cynaliadwy, astudiaethau achos ac **adnodd hunanasesu** sefydliadol. Mae'r wefan KnowHowNonProfit hefyd yn darparu adnoddau ar gyfleoedd eraill i gynhyrchu incwm gan gynnwys codi arian mewn ffordd ddigidol, comisiynu diwylliannol, masnachu a siopau a buddsoddiad cymdeithasol.

Cyfoeth Naturiol Cymru - Prosiect Carbon Bositif

Mae CNC yn cymryd camau positif i leihau allyriadau carbon, ac i wella ac amddiffyn carbon sy'n cael ei storio ar y tir y maent yn ei reoli.

Now Donate

Mae NowDonate™ yn system dalu ar-lein am ddim i elusennau yn y DU. Pa un ai yr ydych yn ddechreuwr neu'n brofiadol, mae cymryd rhoddion yn bosibl gan ddefnyddio dolen syml, botwm, teclyn neu hyd yn oed integreiddio'r holl broses roi o fewn gwefan eich

elusen. Mae'r holl arian a roddir yn mynd yn uniongyrchol i'ch elusen. Mae NowDonate™ yn eich darparu ag offer pwerus i'ch galluogi chi i gymryd rhoddion.

Now Go Online

Mae NowGoOnline™ yn rhoi'r gallu i'ch elusen gael nifer diderfyn o wefannau gyda phopeth sydd ei angen i gael presenoldeb effeithiol cryf. Mae'r gwefannau wedi'u hintegreiddio i mewn i gyfryngau cymdeithasol er mwyn darparu'r offer sydd eu hangen i gyrraedd rhoddwyr a phobl sy'n codi arian. Os oes gan eich elusen wefan yn barod, gallwch osod is-safleoedd NowGoOnline™ ar gyfer codi arian neu is-safle penodol sy'n canolbwyntio ar apêl. Nid oes terfyn ar faint o wefannau y gallwch chi eu creu.

Cymru Effeithlon

Cymru Effeithlon yw pwynt mynediad unigol Llywodraeth Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am ystod o bynciau ar effeithlonrwydd adnoddau i grwpiau cymunedol, elusennau, cartrefi, busnesau neu gyrff cyhoeddus. Mae llinell gymorth ddwyieithog yn rhoi gwybodaeth benodol am arbed ynni a dŵr, a lleihau gwastraff neu ei waredu'n fwy effeithlon. Codir tâl ar y gyfradd leol am alwadau, hyd yn oed o ffôn symudol a gallwch ofyn am i rywun eich ffonio nôl, ac fe wneir hynny cyn pen 2 ddiwrnod gwaith. Mae'r llinell gymorth 0300 123 2020 ar agor rhwng 9am a 5pm.

Cymru Effeithlon – Adnodd Hunan-asesu Effeithlonrwydd Adnoddau

Gallai eich busnes neu sefydliad leihau gorbenion drwy ddefnyddio llai o ynni a dŵr, defnyddio llai o ddeunyddiau crai, a lleihau gwastraff gyda'r **Adnodd Hunanasesu Effeithlonrwydd Adnoddau** newydd. Mae gwasanaeth Cymru Effeithlon Llywodraeth Cymru yn rhad ac am ddim ac yn hawdd cael mynediad iddo. Gall unrhyw fusnesau yng Nghymru wneud cais a chael eu paru â Rheolwr Cleient arbenigol o WRAP Cymru neu'r Ymddiriedolaeth Garbon. Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â: **WRAP Cymru** – 02920 100100 a **Cymru Effeithlon** – 0300 123 2020

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol (Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol gynt)

Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn sefydliad newydd a grewyd o ganlyniad i uno Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol, â Care Farming UK. Rydym wedi uno er mwyn i ni allu rhoi gwell cefnogaeth a chynrychiolaeth i ffermwyr, garddwyr a thyfwyr sy'n rhedeg prosiectau i newyd bywydau yn ein cymunedau trefol a gwledig. Mae'r FCFCG yn darparu cefnogaeth i unrhyw un sy'n dod yngyd ag eraill yn eun cymdogaeth i greu a gofalu am ofod gwyrdd er budd eu cymuned. Mae ffermydd gofalu yn darparu gwasanaethau gofalu iechyd, cymdeithasol neu addysg arbennig i unigolion o blith un neu ddetholiad o grwpiau bregus. Ceir ystod eang o wybodaeth a chynghor ar lein sy'n ddefnyddiol i **dyfwyr cymunedol Cymru**.

SF&G – Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol yng Nghymru

Bwriad CLAS yw helpu grwpiau tyfu cymunedol, tirlfeddianwyr – ac eraill sy'n ymwneud â mynediad i dir – i gydweithio i wneud mwy o dir yn agored ar gyfer tyfu cymunedol. **Tyfu Ynghyd**, prosiect a gynlluniwyd i helpu prosiectau tyfu cymunedol i ddod yn fwy cynaliadwy o ran cyllid.

Pencampwyr Cymunedol Tesco

Mae gan Tesco dros 500 o bencampwyr, yn bennaf yn ei siopau mwyaf, sy'n gallu cynorthwyo elusennau, grwpiau a sefydliadau lleol nad ydynt yn gwneud elw i gynnal amryw weithgareddau elusennol a gweithgareddau codi arian yn y siop neu yn eu cymuned leol.

Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn rhwydwaith o sefydliadau cefnogi ar gyfer y trydydd sector cyfan yng Nghymru. Mae'n cynnwys y 19 o gyrff cefnogi lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVC) a'r corff cefnogi cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA).

Llywodraeth y DU - 'A Green Future: Our 25 Year Plan to Improve the Environment'

Mae cynllun amgylcheddol Llywodraeth y DU yn gosod ei nodau ar gyfer gwella'r amgylchedd, o fewn cenhedlaeth, a'i adael mewn gwell cyflwr nag yr oedd. Mae'n nodi sut y bydd y rhai sy'n llywodraethu'n gweithio gyda chymunedau a busnesau i wneud hyn dros y 25 mlynedd nesaf.

Turn2Us

Mae Turn2us yn elusen genedlaethol sy'n helpu pobl mewn cynni ariannol i gael mynediad at fudd-dal lles, grantiau elusennol a gwasanaethau cefnogi. Os ydych yn gyfryngydd – un o'r miloedd o gynghorwyr, swyddogion lles, gweithwyr cymorth ac ymwelwyr cartref gwirfoddol sy'n cael cysylltiad wyneb yn wyneb â phobl mewn tlodi – gall Turn2us eich helpu i gael yr adnoddau cywir i gefnogi'r bobl rydych yn gweithio gyda hwy. Gallech hefyd storio manylion a cheisiadau unigolion yn eich cyfrif cyfryngydd Turn2us cudd a diogel, fyddai'n eich galluogi chi i gael mynediad ac i ddiweddarau gwybodaeth fel bo angen. Mae Turn2us hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda llawer o sefydliadau i ddatblygu prosiectau a gwasanaethau sy'n cynnwys cyfryngwyr.

Pentref SOS

Nod yr ymgyrch yw ysbrydoli cymunedau lleol i weithredu, drwy gefnogi prosiectau cymunedol newydd, rhai sy'n ael eu datblygu a rhai sy' bodoli eisoes, a fydd o fudd i drigolion cymunedau gwledig ledled y DU Gellir cael cymorth ar gyfer prosiectau a fyddai'n helpu i ailsefydlu neu ailgyflwyno gwasanaethau ac adfywio'r gymuned. Efallai y gallai hynny fod drwy gyfrwng cadw gwasanaethau fel siopau neu gylchoedd chwarae'n agored mewn pentref neu drwy gychwyn ar fenter newydd a allai greu incwm er budd yr ardal leol.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yw'r sefydliad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru. Cenhadaeth WCVA yw bod yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol trwy gysylltu, galluogi, a dylanwadu.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) – Environet Cymru

Mae Environet Cymru yma i gefnogi staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr o unrhyw grŵp cymunedol neu sefydliad trydydd sector yng Nghymru sydd am ddechrau prosiect amgylcheddol neu i ddatblygu prosiect sydd yn bodoli'n barod ymhellach. Mae Cymunedau a chyrrff trydydd sector yn barod yn chwarae rôl allweddol yn codi ymwybyddiaeth am, ac yn gweithredu ar, rhai o'n heriau mwyaf amgylcheddol pwysig fel newid hinsawdd, colli rhywogaeth a defnydd adnoddau anghynadwy. Maent hefyd yn ffurfio adnodd o wybodaeth ffantastig, syniadau a dysgu sydd yn gallu ysbrydoli a chefnogi eraill i ddatblygu gweithgareddau amgylcheddol hefyd.

Mae Environet Cymru yn bwriadu rhannu a hyrwyddo'r dysgu yma drwy rwydweithio, digwyddiadau rhanbarthol a chefnogaeth ar-lein a dros y ffon. Rydym hefyd yn cynnig cefnogaeth cyd-drefniant i ddatblygiad prosiect rhanbarthol neu genedlaethol a helpu grwpiau neu bartneriaethau i archwilio'r posibilid o geisio am ariannu ar raddfa fwy. Gydan gilydd, hyd yn oed gyda gweithrediadau bychain, gyda'r cyngor a'r gefnogaeth gywir, gall gael effaith anferthol, felly dewch i gysylltiad heddiw!

Os oes gennych syniad penodol ar gyfer prosiect amgylcheddol yr hoffech ei ddechrau neu i ddarganfod partneriaid, adnoddau neu gronfeydd - yna dewch i gysylltiad os gwelwch yn dda. Byddem wrth ein bodd yn clywed oddi wrthyhch! E-bost: environet@wcva.org.uk

Allai'ch sgiliau chi gefnogi ein hamgylchedd naturiol? Cewch wybod ym 'Mhecyn Cymorth Gwirfoddoli Amgylcheddol' newydd Evironet

Mae'r amgylchedd yn agos at galon llawer o bobl ond efallai eu bod yn ansicr sut i gael effaith positif. Mae gwirfoddoli amgylcheddol yn ffordd wych o ddechrau cefnogi'r blaned tra'n rhoi nôl i'ch cymuned leol, ac mae llawer o gyfleoedd a all weddu eich ffordd o fyw. Nod y **pecyn cymorth** hwn yw helpu pobl, sydd efallai heb feddwl am y peth o'r blaen, i ddechrau gwirfoddoli dros yr amgylchedd a hyrwyddo'r cyfleoedd cyffrous sydd ar gael gan sefydliadau lleol a chenedlaethol.

Angen help i berswadio eraill i wneud lle i natur? Gall pecyn cymorth Gwneud Eich Rhan Dros Gymru Wydn eich helpu!

Mae'n siŵr y byddai'n well gan y mwyafrif ohonom gael gweithle â mwy o wyrddni a chyfle i fwynhau rhywfaint o le ar gyfer byd natur. Sut rydym yn dwyn perswâd ar eraill a allai fod yn poeni bod hyn yn gostus, yn anodd ei gynnal a chadw ac yn ddim mwy na 'pheth braf i'w gael'? Nod pecyn cymorth Environet, **Gwneud Eich Rhan Dros Gymru Wydn** a gynhyrchwyd ar y cyd ag **Ymddiriedolaethau Natur Cymru**, yw newid y credoau hyn gydag ymchwil ac ystadegau ynghylch y buddion i iechyd a lles o gael gweithle mwy cyfeillgar i natur, sy'n cynnwys llai o salwch a gweithlu mwy cynhyrchiol a chreadigol!

Eisiau gwneud eich rhan dros fyd natur? Cymrwch olwg ar ganllaw Environet, 'Buddsoddi ym Myd Natur' am syniadau.

Mae canllaw Environet, **'Buddsoddi ym Myd Natur'**, yn ein helpu i edrych ar yr effeithiau negyddol y gallwn fod yn eu cael, yn anfwriadol, ar natur ac yn egluro'r camau syml, ymarferol, a gaiff eu hesgeuluso'n aml, y gallwn eu cymrud er mwyn **Helpu Bywyd Gwyllt i Ffynnu**. Bydd y mesurau hyn nid yn unig yn helpu natur ond hefyd yn arbed arian i'ch sefydliad, yn gwella morâl staff a gwirfoddolwyr, ac yn cyfrannu at gymunedau iachach a mwy bywiog.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – Taflenni Ffeithiau ac Animeiddiad

Oeddech chi'n credu mai dim ond ar gyfer cyrff cyhoeddus y mae Amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol? Mae'r trydydd sector yn gwneud cyfraniad enfawr tuag at y gwaith o gyflawni'r amcanion, ac mae'r **taflenni ffeithiau** ac **animeiddiad** hyn â'r nod o helpu grwpiau i feddwl mwy am eu cyfraniadau yng nghyd-destun yr amcanion – gan eu galluogi i ddangos yr effaith maent yn ei chael.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) – Porth Cyllid

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn gweithredu Porth Ariannu'r Trydydd Sector, 'siop un stop' ar gyfer cyngor ar gyllid a chyfleoedd am gyllid. Mae'r porth yn cynnwys **GRANTnet**, chwiliad ariannu ar-lein sylfaenol am ddim a all helpu i nodi cyfleoedd am gyllid ar gyfer eich gweithgaredd neu brosiect. Ar gyfer sefydliadau treftadaeth ceir rhaglen hefyd o gymorth codi arian arbenigol o'r enw **Catalydd Cymru**.

WCVA – Hafan Ddysgu

Mae Hafan Dysgu WCVA yn cynnig mynediad hawdd a hwylus i ddysgu ar lein. Bydd y safle yn cynnig cyrsiau annibynnol amrywiol, yn ogystal â darparu deunydd ac adnoddau ychwanegol i gyfoethogi ein sesiynau ystafell ddosbarth traddodiadol Ewch i **www.learningzone.wales** nawr i gychwyn eich taith dysgu ar-lein. Mae'r cyrsiau hyn yn

barod, ar gael ac am ddim i bawb: **Paratoi at godi arian; Cyflwyniad i strwythurau cyfreithiol a statws elusennol; a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) - Yr hanfodion.** Bydd y cynnwys yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd a chysiau newydd eu hychwanegu felly cofiwch gadw llygad ar y safle i weld beth sy'n newydd. Os hoffech weld unrhyw gyrsiau sydd ddim ar gael ar hyn o bryd, **cysylltwch â ni** os gwelwch yn dda.

WCVA – Gwasanaethau Pay Connect

Gwasanaeth cyflogres allanol pwrpasol a phroffesiynol i elusennau a mudiadau dielw. Mae gan Pay Connect CGGC strwythur brisio glir heb unrhyw ffioedd cudd ar gyfer cwblhau Treth Diwedd blwyddyn. Am wybodaeth bellach neu ddyfynbris ewch i **www.wcva.org.uk/advice-guidance/pay-connect** am fwy o wybodaeth.

WCVA – Cymorth i ddod o hyd i Bartneriaid Ewropeaidd ar gyfer Prosiectau neu Gydweithredu

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn aelod o Rwydwaith Ewropeaidd Sefydliadau Cymdeithasau Dinesig Cenedlaethol (ENNA), rhwydwaith o gyrrff anllywodraethol cenedlaethol o'r UE, Norwy a Thwrci, sydd wedi creu e-gronfa ddata partneriaid anllywodraethol sy'n cynorthwyo cyrrff anllywodraethol i ddod o hyd i bartneriaid ledled Ewrop, naill ai ar gyfer partneriaethau prosiect neu gydweithrediad cenedlaethol cyffredinol.

WCVA – Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector (3-SET)

Mae gwasanaeth 3-SET WCVA yn cael ei ariannu'n rhannol gan y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd er mwyn cefnogi sefydliadau'r trydydd sector sy'n ceisio cael at nawdd gan Ewrop trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor, adnoddau a hyfforddiant.

Llywodraeth Cymru – Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol

Mae **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol** wedi cael ei ddylunio i gefnogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wneud penderfyniadau gwell ar gyfer y tymor hir. Mae'n nodi'r tueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol allweddol a allai effeithio ar Gymru yn y dyfodol, yn ogystal â rhai o'r ffactorau a allai ddylanwadu ar gyfeiriad y tueddiadau hynny. Mae'r adroddiad yn amlinellu tueddiadau'r dyfodol o dan chwe thema: y Boblogaeth, Iechyd, yr Economi a'r Seilwaith, Newid Hinsawdd, y Defnydd o Dir ac Adnoddau Naturiol, y Gymdeithas a Diwylliant. Mae'r **adroddiad** yn annog darllenwyr i ystyried tueddiadau'r dyfodol mewn cyfuniad â'i gilydd, ac i ddechrau nodi a thrafod y cyfleoedd a'r heriau posibl y gallent eu cyflwyno i bob un ohonom.

Llywodraeth Cymru – Polisi Adnoddau Naturiol

Y **Polisi Adnoddau Naturiol** yw'r ail elfen statudol sy'n deillio o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**.

Mae'r polisi'n amlinellu tair **Blaenoriaeth Genedlaethol**:

- Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur
- Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon
- Gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar leoedd

Llywodraeth Cymru – Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru **Symud Cymru Ymlaen**, yn amlinellu'r ymrwymadau y byddwn yn eu gwireddu yn ystod y 5 mlynedd nesaf er mwyn helpu i sbarduno gwelliant a gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pawb yng Nghymru. Mae **Ffyniant i bawb**: y strategaeth genedlaethol yn mynd i'r afael â'r ymrwymadau hynny, yn

eu rhoi mewn cyd-destun hirdymor, ac yn nodi sut y byddant yn cael eu gwireddu drwy ymdrech ar y cyd gan bob rhan o sector cyhoeddus Cymru. Ochr yn ochr â'r strategaeth genedlaethol, rydym hefyd wedi cyhoeddi **datganiad llesiant** sy'n esbonio sut yr ydym wedi defnyddio **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** i helpu i ddatblygu'r strategaeth genedlaethol ac i nodi un set o amcanion a chymau ar gyfer y llywodraeth.

Llywodraeth Cymru – Adroddiad Llesiant Cymru 2016-17

Mae adroddiad Llywodraeth Cymru'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru tuag at gyflawni'r saith nod llesiant drwy gyfeirio at 46 dangosydd cenedlaethol Cymru a rhywfaint o gyd-destun ychwanegol lle bo'n briodol.

Ymddiriedolaethau Natur – Homes for people and wildlife: how to build housing in a nature-friendly way

Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt yn dangos sut y gellir adeiladu datblygiadau tai newydd mewn modd sy'n darparu cartrefi gwyrddach, ysbrydoledig ar gyfer pobl sy'n helpu i wrthdroi degawdau o ddirywiad o ran bywyd gwyllt a chynefinoedd. Mae'r canllaw hefyd yn tynnu sylw at y lluo o fanteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a ddaw yn sgil yr ymagwedd hon.

Ymddiriedolaethau Natur – Adroddiad Moroedd Byw

Âr DU yn cynllunio gadael yr Undeb Ewropeaidd yn 2019, mae gennym gyfle unigryw i chwyldroi'r modd yr ydym yn rheoli ein moroedd bregus. Cyfrifoldeb pennaf y llywodraeth yw sicrhau ein bod yn trosglwyddo rheoliadau Ewropeaidd cyfredol sy'n darparu mesurau amddiffynnol ar gyfer ein moroedd a bywyd y môr – mae angen i ni ddiogelu cyfreithiau amddiffynnol cyfredol, fel yr addawyd yn y Bil Ymadael. Wrth wneud hynny, mae'r Ymddiriedolaethau Natur wedi nodi **pum her allweddol** y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn adfer ein moroedd byw a diogelu eu hiechyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae ein hadroddiad newydd, **'The Way Back to Living Seas'**, yn amlinellu dull newydd chwyldroadol tuag at y ffordd rydym yn rheoli ein moroedd a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau hyn ac yn creu DU wedi'i hamgylchynu gan foroedd byw ysbrydoledig, llawn bywyd sy'n gynaliadwy.

Coed Cadw - Pecynnau Plannu Coed

Coed Cadw yw'r brif elusen gadwraeth sy'n gwarchod treftadaeth coetiroedd brodorol y DU. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgyrchu i amddiffyn coedwigoedd hynafol, gwella bioamrywiaeth coetiroedd, cynyddu gorchudd coetiroedd brodorol a chynyddu dealltwriaeth a mwynhad pobl o goedwigoedd.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth ystod o becynnau coed sy'n addas i ysgolion, grwpiau ieuencid a chymunedau. Cred yr Ymddiriedolaeth fod coed yn gwella'r mannau lle mae pobl yn byw, dysgu, gweithio, gorffwys a chwarae; yn helpu i wella iechyd a lles; yn denu bywyd gwyllt; ac yn creu mannau ar gyfer hamdden.

Mae 3,250 o becynnau o goed ar gael i'w rhannu ar gyfer gwanwyn 2018. Gall grwpiau wneud cais am hyd at 420 o goed ym mhob cylch ariannu. Bydd y rhain yn goed ifanc tua 20-40cm o uchder, sy'n tarddu ac yn cael eu tyfu yn y DU. Gall hyn fod yn un pecyn mawr neu'n gyfuniad o becynnau canolig a bach.

Mae pecynnau coed ar gael mewn tri maint:

- Mae pecynnau bach yn cynnwys 30 o goed ifanc ar gyfer creu perth fechan neu wrych byr ac mae'n ddelfrydol fel pecyn cychwynnol neu ar gyfer prosiect bach.

- Mae pecynnau canolig yn cynnwys 105 o goed ifanc ar gyfer eu plannu naill ai mewn grwpiau bach o goed neu fel gwrych (tua 30m).
- Mae pecynnau mawr yn cynnwys 420 o goed ifanc er mwyn creu gwrych hir (tua 120m) neu digon ar gyfer tua erw o dir os gaiff y coed eu plannu gyda'i gilydd mewn coedlan.